

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Parhau i Adfywio Bae Caerdydd

Adroddiad gan Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru 2002

Cyhoeddwyd gan Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru ac ar gael oddi wrth:

Y Llyfrfa Oriel
18-19 Y Stryd Fawr, Caerdydd, CF1 2BZ

Ffôn 029 2039 5548
Ffacs 029 2038 4347

Printed on Greencoat paper.
Greencoat is produced using 80% recycled fibre and 20% virgin TCF pulp from sustainable forests.

ISBN - 1-904219-00-4



# Parhau i adfywio Bae Caerdydd

Adroddiad gan Archwilydd Cyffredinol

Cymru i'w gyflwyno i Gynulliad

Cenedlaethol Cymru ar

9 Mai 2002

Paratowyd yr adroddiad hwn i'w gyflwyno i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Ddeddf Llywodraeth i Gymru 1998.

John Bourn
Archwilydd Cyffredinol Cymru

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

26 Ebrill 2002

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn hollol annibynnol o'r Cynulliad Cenedlaethol. Mae'n ardystio cyfrifon y Cynulliad a'i gyrff noddedig cyhoeddus cysylltiedig; ac mae ganddo awdurdod statudol i adrodd i'r Cynulliad ar y cynildeb, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd sydd gan y Cynulliad a'i gyrff cyhoeddus noddedig wrth ddefnyddio eu adnoddau i gyflawni eu gweithrediadau.

Paratowyd a chyhoeddwyd yr adroddiad hwn ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru. Cynhwysodd tîm archwilio'r NAO Frank Grogan, Brian Pickett, Rachel Heath a Rosemarie Khan.

Am fwy o wybodaeth am Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru cysylltwch â:

Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru
23-24 Plas-y-Parc
Caerdydd
CF10 3BA

Ffôn: 029 20 67 8500

e-bost: ian.summers@nao.gsi.gov.uk
gillian.body@nao.gsi.gov.uk
Cyfeiriad safle'r Wê: http://www.acc.cymru.gov.uk/dangoseg.htm

# CYNNWYS


| | |
|---|---|
| **Crynodeb gweithredol** | **1** |
| **Rhan 1: Cyflwyniad** | **3** |
| **Rhan 2: Rôl Llywodraeth y Cynulliad** | **4** |
| Hwyluso adfywiad parhaus | 4 |
| Ariannu | 5 |
| Monitro a goruchwylio | 6 |
| Gwerthuso | 8 |
| **Rhan 3: Cyngor Sir Caerdydd** | **9** |
| Perfformiad ariannol | 9 |
| Adfywio parhaus | 11 |
| Awdurdod yr Harbwr | 12 |
| **Rhan 4: Awdurdod Datblygu Cymru** | **19** |
| Perfformiad ariannol | 19 |
| Asedau datblygu | 19 |
| Cynllun Menter Cyllid Preifat Rhodfa Bute | 21 |
| Rheolaeth amgylcheddol Parc Plymouth | 24 |
| Grantiau datblygu | 25 |
| Amrywiol ddyledwyr a chredydwyr | 26 |
| **Rhan 5: Cyngor Cefn Gwlad Cymru** | **27** |
| Cefndir | 27 |
| Cwblhau'r gwaith o adeiladu'r Warchodfa | 28 |
| Rheoli'r Warchodfa o ddydd i ddydd | 28 |
| **Rhan 6: Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg** | **30** |


2

# CRYNODEB GWEITHREDOL

Wrth i Gorfforaeth Datblygu Bae Caerdydd ddirwyn i ben ar ddiwedd mis Mawrth 2000, trosglwyddwyd ei hasedau, ei swyddogaethau a'i rhwymedigaethau cysylltiedig i bedwar sefydliad olynol, sef Cyngor Sir Caerdydd, Awdurdod Datblygu Cymru, Cyngor Cefn Gwlad Cymru a Chyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg. Mae'r adroddiad hwn yn archwilio'r cynnydd a wnaed gan bob un o'r sefydliadau hyn wrth ddatblygu'r cyfrifoldebau a etifeddwyd ganddynt. Mae'r adroddiad hefyd yn ystyried swyddogaeth barhaus Llywodraeth y Cynulliad wrth barhau i adfywio Bae Caerdydd â'r arian a ddarparwyd ganddi i gynorthwyo'r cyrff olynol â'u cyfrifoldebau newydd.

Mae pob un o'r pedwar sefydliad olynol wedi gwneud cynnydd da wrth ddatblygu'r priod gyfrifoldebau a etifeddwyd ganddynt. Mae Cyngor Sir Caerdydd wedi cwblhau nifer o gynlluniau adfywio y dechreuwyd arnynt gan y Gorfforaeth Datblygu. Yn fwy arwyddocaol, drwy ei swyddogaeth fel Awdurdod yr Harbwr, mae Cyngor Sir Caerdydd wedi datblygu ffordd effeithiol o weithredu a rheoli o ddydd i ddydd y Bae ei hun a Morglawdd Bae Caerdydd. Mae'r Cyngor wedi cwblhau dau brosiect cyfalaf pwysig a oedd yn cynnwys carthu'r Bae a gweithredu system awyru. Yn hyn o beth bu'r Cyngor yn llwyddiannus wrth gyflawni'r targed o sefydlu cronfa ddŵr croyw erbyn gwanwyn 2001. Erys nifer o faterion amgylcheddol o ran gweithredu'r Morglawdd a rheoli'r Bae ei hun. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf mae Awdurdod yr Harbwr wedi gweithio gydag Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, ac wedi derbyn cymorth ganddi, i sicrhau ei fod yn bodloni ei gyfrifoldebau amgylcheddol.

Etifeddodd Awdurdod Datblygu Cymru hefyd amrywiaeth eang o gyfrifoldebau yn dilyn dirwyn y Gorfforaeth i ben. Yn gyffredin â'i waith ledled gweddill Cymru, mae'r Awdurdod yn cydweithio yn yr achos yma â Chyngor Sir Caerdydd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg yn eu gwaith i sicrhau adfywiad parhaus ardal Bae Caerdydd. Yn nhermau'r cyfrifoldebau penodol a etifeddwyd ganddo, gwnaeth yr Awdurdod gynnydd da wrth werthu'r asedau datblygu a oedd yn weddill gan y Gorfforaeth. Drwy ei rôl fel y partner sector cyhoeddus ym mhrosiect PFI Rhodfa Bute, mae'r Awdurdod wedi gweithio gyda'r datblygwr sector preifat i sicrhau bod y tair agwedd ar y cynllun - y rhwydwaith ffyrdd, y datblygiad masnachol a'r datblygiad preswyl - oll wedi datblygu naill ai yn unol â'r terfynau amser a bennwyd yn wreiddiol ar gyfer y prosiect neu yn gynt na hynny. Mae'r Awdurdod hefyd wedi sefydlu systemau cadarn i sicrhau y caiff ei holl gyfrifoldebau eraill eu rheoli a'u gweinyddu mewn modd priodol.

Derbyniodd Cyngor Cefn Gwlad Cymru berchenogaeth a chyfrifoldeb dros gwblhau a rheoli Gwarchodfa Natur Gwlyptiroedd Gwastadeddau Gwent yn barhaus. Un o'r dangosyddion allweddol bydd yn nodi llwyddiant y Warchodfa yw a gyflawnir statws Ardal Diogelwch Arbennig o fewn pum mlynedd i agor y Warchodfa. Mae'r Cyngor Cefn Gwlad yn hyderus y cyflawnir statws Ardal Diogelwch Arbennig o fewn y cyfnod hwnnw.

Yn ogystal â nifer o swyddogaethau â ddychwelwyd i'r awdurdodau lleol perthnasol, derbyniodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg gyfrifoldeb hefyd dros gyflwyno prosiect isadeiledd allweddol na ddechreuwyd gan y Gorfforaeth cyn ei dirwyn i ben, sef adeiladu llwybr cyswllt Penarth, llwybr yn rhedeg o amgylch wyneb y clogwyn gan gysylltu pen deheuol strwythur Morglawdd Bae Caerdydd ag Esplanad Penarth. Er bod y gwaith ar gam cynnar o hyd, mae'r Cyngor ynghyd â'i dîm o ymgynghorwyr yn bwriadu cwblhau'r llwybr cyswllt cyn diwedd 2004-05.

Amcangyfrifodd y Gorfforaeth Datblygu y byddai angen ychydig o dan £100 miliwn ar y pedwar sefydliad olynol wedi'i ariannu gan Lywodraeth y Cynulliad ar gyfer y cyfnod o bum mlynedd o 2000-01 i 2004-05 er mwyn cyflawni eu cyfrifoldebau newydd. Amcangyfrifodd y Gorfforaeth hefyd, o'r swm hwn, y byddai angen £23 miliwn yn ystod y flwyddyn weithredu gyntaf, sef 2000-01. Yn erbyn y cefndir hwn, bu'r gwariant yn ystod 2000-01 ychydig yn is na £22 miliwn a dros yr un cyfnod o bum mlynedd amcangyfrifir erbyn hyn y bydd angen cyfanswm ariannu o £102 miliwn, swm sy'n lled agos at amcangyfrif gwreiddiol y Gorfforaeth.

Yn ogystal â darparu'r arian angenrheidiol, mae gan Lywodraeth y Cynulliad rôl monitro a goruchwylio ehangach i'w chwarae mewn perthynas â'r trefniadau olynol a roddwyd ar waith. Mae Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru wedi nodi rhai materion a ddaeth i'r amlwg mewn perthynas â blwyddyn weithredu gyntaf y trefniadau, a bu i Lywodraeth y Cynulliad adolygu ac atgyfnerthu ei strwythur staffio a chymorth yn unol â hyn. Bydd y strwythur mwy cadarn hwn yn gynyddol bwysig dros y blynyddoedd sydd i ddod yn arbennig wrth i Lywodraeth y Cynulliad symud tuag at adolygu a chytuno ar drefniadau ariannu ar gyfer Awdurdod yr Harbwr ar ddiwedd y cyfnod cychwynnol o bum mlynedd. Mae'r arian a roddir i Awdurdod yr Harbwr yn rhoi cyfrif am y rhan fwyaf o'r cymorth a roddir gan Lywodraeth y Cynulliad i'r pedwar sefydliad olynol.


IN

# RHAN 1. CYFLWYNIAD

1.1 Dyma'r trydydd adroddiad a baratowyd gennyf i'r Cynulliad ynghylch adfywio Bae Caerdydd. Cyhoeddwyd fy nghyntaf, *Morglawdd Bae Caerdydd*, ym mis Gorffennaf 2000. Edrychodd ar ganolbwynt gweithgareddau Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd, adeiladu'r Morglawdd a chreu llyn dŵr croyw ym Mae Caerdydd. Cyhoeddwyd fy ail adroddiad, *Sicrhau Dyfodol Bae Caerdydd*, ym mis Mehefin 2001. Archwiliodd y ffordd y rheolwyd y broses o ddod â materion Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd i ben cyn ei ddirwyn i ben ar 31 Mawrth 2000. Roedd yr adroddiad hwnnw yn ymwneud yn benodol â sefydlu i ba raddau y byddai'r trefniadau hynny yn sicrhau'r buddiannau yn deillio o'r buddsoddiad sylweddol o fwy na £500 miliwn gan y Gorfforaeth o fewn ei hardal benodedig.

1.2 Gan adeiladu ar fy ngwaith blaenorol, mae fy adroddiad newydd yn archwilio cyfnod gweithredu cychwynnol y pedwar corff a olynodd y Gorfforaeth Datblygu, sef Cyngor Sir Caerdydd, Awdurdod Datblygu Cymru, Cyngor Cefn Gwlad Cymru a Chyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg. Yn **Ffigur 1.1** ceir crynodeb o'r cyfrifoldebau a drosglwyddwyd i bob un o'r cyrff hyn yn weithredol o 1 Ebrill 2000 o dan y cytundebau cyfreithiol y trefnodd pob un ohonynt gyda'r Gorfforaeth Datblygu o dan Adran 165 Deddf Cynllunio a Thir Llywodraeth Leol 1980. Cyfeirir atynt yng ngweddill yr Adroddiad hwn fel cytundebau Adran 165.

1.3 Mae gweddill yr adroddiad yn edrych yn gyntaf ar rôl Llywodraeth y Cynulliad wrth ariannu a goruchwylio gweithgareddau a chyfrifoldebau perthnasol y pedwar corff olynol. Wedyn ystyria'r adroddiad, ar gyfer pob un o'r cyrff olynol yn eu tro, y cynnydd a wnaed ganddynt wrth ddatblygu'r amrywiol gynlluniau a phrosiectau y rhoddwyd cyfrifoldeb iddynt drostynt wrth ddirwyn Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd i ben.

**Ffigur 1.1**

**Y cyfrifoldebau a drosglwyddwyd i'r pedwar corff olynol**

**Cyngor Sir Caerdydd**

Drwy ei gyfrifoldeb dros Awdurdod Harbwr Caerdydd:

- rôl Awdurdod Harbwr statudol;
- gweithredu a chynnal a chadw'r Morglawdd a'r Bae dŵr croyw;
- cwblhau gwaith adeiladu yn gysylltiedig â'r Morglawdd; a
- hyrwyddo gweithgareddau ar lan y Bae.

*a thrwy ei rôl awdurdod lleol ehangach:*

- parhau â gweithgareddau adfywio o amgylch Bae Caerdydd;
- cwblhau prosiectau a ddechreuwyd gan y Gorfforaeth Datblygu; ac
- ôl-feddiant ar y swyddogaethau awdurdod lleol hynny y bu'r Gorfforaeth Datblygu yn gyfrifol amdanynt yn ystod ei hoes.

**Awdurdod Datblygu Cymru**

*Cyfrifoldeb dros:*

- gwaredu gweddill asedau datblygu'r Gorfforaeth;
- dilyn y Gorfforaeth Datblygu fel partner y sector cyhoeddus yn y cynllun Menter Cyllid Preifat (PFI) Rhodfa Bute;
- rheoli amgylchedd Parc Plymouth;
- talu a monitro grantiau datblygu gweddilliol y Gorfforaeth Datblygu; a
- Chasglu'r amryw ddyledion heb eu talu a thalu'r gwahanol credydwyr.

**Cyngor Cefn Gwlad Cymru**

- gweithredu a rheoli Gwarchodfa Natur Gwlyptiroedd Gwastadeddau Gwent

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg**

- adeiladu Llwybr Cyswllt Penarth
- ôl-feddiant ar y swyddogaethau awdurdod lleol hynny y bu'r Gorfforaeth Datblygu yn gyfrifol amdanynt yn ystod ei hoes.

*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru*

# RHAN 2. RÔL LLYWODRAETH Y CYNULLIAD

2.1 Pan fu i Gorfforaeth Datblygu Bae Caerdydd ddirwyn i ben ar 31 Mawrth 2000, newidiodd rôl Llywodraeth y Cynulliad yn sylweddol. Yn ystod ei hoes, ariannwyd y Gorfforaeth drwy grant mewn cymorth a ddarparwyd gan y Swyddfa Gymreig ac wedi hynny Llywodraeth y Cynulliad. Er i'r Gorfforaeth fwynhau annibyniaeth sylweddol, o dan y dirprwyaethau a'r canllawiau ariannol a oedd yn rheoli ei gweithgareddau, bu'n rhaid iddi ofyn am gymeradwyaeth gan y Swyddfa Gymreig ac wedi hynny Lywodraeth y Cynulliad ar gyfer camau gweithredu neu benderfyniadau penodol. O ganlyniad bu'n rhaid cynnwys swyddogion i ryw raddau ym musnes y Gorfforaeth. Yn wir, fel y dengys fy adroddiad, *Sicrhau Dyfodol Bae Caerdydd*, cynyddodd cyfranogiad swyddogion Llywodraeth y Cynulliad ym musnes y Gorfforaeth wrth i'r broses o'i dirwyn i ben fynd rhagddi.

2.2 Yn dilyn dirwyn y Gorfforaeth i ben ceir cydberthynas wahanol rhwng Llywodraeth y Cynulliad a'r pedwar corff olynol ac, o ganlyniad, newid yn natur cyfrifoldebau Llywodraeth y Cynulliad. Erys Llywodraeth y Cynulliad yn gyfrifol am ariannu swyddogaethau a rhwymedigaethau'r Gorfforaeth a drosglwyddwyd i'r pedwar sefydliad olynol o dan y cytundebau Adran 165 perthnasol. Mae hyn yn cynnwys yswirio'r risgiau a'r rhwymedigaethau ariannol sy'n deillio o'r swyddogaethau a'r cyfrifoldebau a drosglwyddwyd i'r pedwar sefydliad olynol a oedd naill ai yn anfesuredig neu'n annisgwyl pan fu i'r Gorfforaeth ddirwyn i ben. Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd yn monitro a goruchwylio'r sefydliadau olynol mewn perthynas â'r cyfrifoldebau newydd a dderbyniwyd ganddynt wrth i'r Gorfforaeth Datblygu ddirwyn ei busnes i ben. Yn y cyd-destun hwn, mae Llywodraeth y Cynulliad yn gyfrifol am sicrhau y defnyddir yr adnoddau sydd ar gael i'r sefydliadau olynol at y dibenion y'u bwriadwyd ac yr ymgymera'r sefydliadau hyn â'r rhwymedigaethau sydd arnynt yn ôl y cytundebau Adran 165 yn unol â'r safon sy'n ofynnol.

## Hwyluso adfywiad parhaus

2.3 Fel rhan o'i rôl wrth ariannu, monitro a goruchwylio'r broses o gyflwyno gwasanaethau a phrosiectau yn unol â thelerau'r cytundebau Adran 165, mae gan Lywodraeth y Cynulliad rôl allweddol arall, sef hwyluso adfywiad parhaus Bae Caerdydd gyda'r nod o sicrhau'r buddiannau economaidd gorau posibl i Gymru. Yn y cyd-destun hwn, mae'n bwysig nodi nad yw Llywodraeth y Cynulliad ei hun yn ymgymryd â chynlluniau adfywio ond ei bod yn dibynnu yn hytrach ar y cyrff olynol i sicrhau y cyflwynir cynlluniau o'r fath.

2.4 Wrth i'r Gorfforaeth ddirwyn ei busnes i ben ym mis Mawrth 2000, dychwelodd y cyfrifoldeb strategol dros adfywio economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yn ei hardal benodedig i'r awdurdodau lleol perthnasol, sef Cyngor Sir Caerdydd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg, a'r Awdurdod Datblygu Cymru. Felly mae'r sefyllfa ar gyfer ardal Bae Caerdydd erbyn hyn yn adlewyrchu'r rôl a chwaraewyd gan awdurdodau lleol a'r Awdurdod mewn mannau eraill yng Nghymru. Nodwyd yr ôl-feddiant hwn o ran cyfrifoldebau yn y Memoranda Dealltwriaeth a lofnodwyd ym mis Ebrill 1999 rhwng Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar y pryd a'r ddau awdurdod lleol.

2.5 O dan ei Femorandwm Dealltwriaeth, mae Cyngor Sir Caerdydd yn cydweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth y Cynulliad a chyrff cyhoeddus a phreifat perthnasol i hyrwyddo datblygiad economaidd parhaus Bae Caerdydd. O fewn y fframwaith partneriaeth hwn, mae'r Cyngor ac Awdurdod Datblygu Cymru yn gweithio tuag at Ddealltwriaeth i gwmpasu materion sydd o ddiddordeb i'r ddwy ochr o ran y trefniadau gweithio. Mae hyn yn cynnwys:

- ystod lawn y gwasanaethau sydd ar gael gan yr Awdurdod i gynorthwyo awdurdodau lleol a phartneriaethau lleol ledled Cymru;
- yr ymagwedd a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod wrth reoli'r asedau a'r rhwymedigaethau a etifeddodd gan y Gorfforaeth;
- y gwasanaethau sydd ar gael a'r trefniadau gweithio sy'n ofynnol er mwyn ategu buddsoddiadau gan fusnesau newydd a busnesau cyfredol ym Mae Caerdydd; a
- chyswllt ar weithredu a rheoli cynllun PFI Rhodfa Bute.

2.6 Cytunodd Llywodraeth y Cynulliad ar drefniadau ariannu trosiannol cyfyngedig ar gyfer y tair blynedd cyntaf, hyd at 31 Mawrth 2003, er mwyn sicrhau adfywiad parhaus Bae Caerdydd, yn arbennig mewn perthynas â phrosiectau a gynlluniwyd ond nas cwblhawyd gan y Gorfforaeth. Ym mis Hydref 1999, mewn datganiad gan Lywodraeth y Cynulliad ar ddirwyn y Gorfforaeth Datblygu i ben, dywedodd y Prif Weinidog ar y pryd 'fod yn rhaid i Lywodraeth y Cynulliad sicrhau bod cyflawniadau'r

13 mlynedd diwethaf yn ddiogel a bod yr ardal yn parhau i ddatblygu. Mae hynny o fudd i ardal Caerdydd a Chymru gyfan. Ar ôl buddsoddi yn y Morglawdd ac isadeiledd arall rhaid i ni nawr sicrhau y cânt eu rheoli a'u defnyddio yn briodol, yn ystyr gorau'r gair, er mwyn sicrhau'r buddiannau gorau posibl a allai ddeillio ohonynt'.

2.7 Roedd hyn yn adlewyrchu datganiad cenhadaeth gwreiddiol y Gorfforaeth Datblygu a oedd yn nodi, fel un o sgîl-effeithiau adfywio Bae Caerdydd, y byddai delwedd Caerdydd a Chymru yn gyffredinol yn cael ei gwella. Cadarnhawyd diddordeb Llywodraeth y Cynulliad ymhellach ym mis Mawrth 2001, mewn ymateb i argymhelliad y Pwyllgor Archwilio y dylid cynnal arfarniad economaidd o'r datblygiadau ym Mae Caerdydd, pan gydnabu Llywodraeth y Cynulliad 'yr angen i sicrhau'r budd gorau posibl o fodolaeth y llyn dŵr croyw'.

## Ariannu

2.8 Ym mis Mawrth 2000 cytunodd Llywodraeth y Cynulliad ar broffiliau ariannu amcangyfrifiedig gyda'r Gorfforaeth a'r pedwar sefydliad olynol yn cwmpasu'r cyfnod pum mlynedd o 2000-01 i 2004-05. Roedd y rhain yn rhagweld ar gyfer y cyfnod hwn y byddai cyfanswm y gwariant net yn £100 miliwn. Pan ddaeth y Gorfforaeth i ben ym mis Mehefin 2000, ar ddiwedd cyfnod anweithredol byr yn dilyn ei dirwyn i ben, lluniodd y Gorfforaeth Datblygu amcangyfrif terfynol o'r costau olynol tebygol ar gyfer y cyfnod pum mlynedd. Roedd yr amcangyfrif terfynol a oedd ychydig o dan £100 miliwn yn gyffredinol unol â chyfanswm y proffiliau ariannu y cytunwyd arnynt gan Lywodraeth y Cynulliad, **Ffigur 2.1**. Wrth lunio ei hamcangyfrif terfynol, fodd bynnag, gwnaeth y Gorfforaeth rai mân newidiadau i'r proffiliau ariannu y cytunwyd arnynt ar gyfer y cyrff olynol unigol. Mae'n bwysig nodi fod y cyrff olynol yn defnyddio proffiliau a gytunwyd ym Mawrth 2000 ar y sail byddai'r proffiliau yn cael eu hadolygu yn y dyfodol.

2.9 Proffiliodd y Gorfforaeth y swm hwn dros y blynyddoedd ariannol unigol 2000-01 i 2004-05. Amcangyfrifwyd y byddai'r arian y byddai ei angen ar gyfer y pedwar corff olynol yn 2000-01 yn £22.7 miliwn. Dengys **Ffigur 2.2** yn erbyn yr amcangyfrif hwn mai'r costau net yn 2000-01 oedd £21.8 miliwn, cyfanswm a oedd yn agos at amcangyfrif terfynol y Gorfforaeth. Yn Rhannau tri i chwech yr adroddiad hwn archwilir yn fanylach perfformiad ariannol y cyrff olynol unigol i'w gymharu ag amcangyfrif terfynol y Gorfforaeth. Gan ystyried costau gwirioneddol y flwyddyn gyntaf (a nawr bod mwy o fanylion ar gael ynghylch perfformiad gweithredol y cyrff olynol) mae swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn amcangyfrif mai £102 miliwn fydd y gofynion ariannu pum mlynedd diwygiedig, swm sy'n agos iawn at yr hyn a amcangyfrifwyd gan y Gorfforaeth. Mae'n bosibl y caiff y ffigur hwn ei leihau o hyd at £2 miliwn drwy'r arbedion a gyflawnwyd gan Gyngor Caerdydd ar osod systemau ocsigeneiddio ym Mae Caerdydd.

**Ffigur 2.1**

**Cyfanswm y proffiliau ariannu pum mlynedd amcangyfrifedig ar gyfer y cyrff olynol**

| | **£ miliwn** |
|---|---|
| Cyngor Sir Caerdydd | 72.8 |
| Awdurdod Datblygu Cymru[1] | 17.0 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg | 7.5 |
| Cyngor Cefn Gwlad Cymru | 2.5 |
| **Cyfanswm yr arian amcangyfrifiedig ar gyfer y cyrff olynol** | **99.8** |

NODYN

1 Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ymrwymedig i yswirio cost tâl unedol blynyddol cynllun PFI Rhodfa Bute tan 2025. Bydd hyn hefyd yn cynnwys cost ehangu Pont Stryd Herbert, a allai ychwanegu tua £1m i'r tâl unedol pe dewisai Llywodraeth y Cynulliad ei ariannu yn y fath fodd.

2 Yn ogystal â'r arian a glustnodwyd ar gyfer y cyrff olynol unigol ar gyfer 2000-01 i 2004-05, mae Llywodraeth y Cynulliad yn ariannu rhai elfennau yn uniongyrchol, sef: £1.9 miliwn o gostau anweithredol a chyfraniadau pensiwn sy'n gysylltiedig â'r Gorfforaeth a ddaeth i law yn 2000-01; £0.6 miliwn o grant fesul blwyddyn i Techniquest a £3 miliwn o grant cyfalaf ar gyfer adleoli Amgueddfa Diwydiant a Môr Cymru.

*Ffynhonnell: Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd*

**Ffigur 2.2**

**Arian amcangyfrifiedig ac arian gwirioneddol ar gyfer 2000-01 ar gyfer y cyrff olynol**

| | Cyngor Sir Caerdydd | Awdurdod Datblygu Cymru (derbynebion net) | Cyngor Cefn Gwlad Cymru | Bro Morgannwg | Cyfanswm ar gyfer yr holl drefniadau olynol |
|---|---|---|---|---|---|
| | £ miliwn | £ miliwn | £ miliwn | £ miliwn | £ miliwn |
| Amcangyfrif terfynol y Gorfforaeth | 25.8[1] | (5.3) | 1.7 | 0.5 | 22.7 |
| Derbynebion-taliadau net gwirioneddol | 18.6 | (5.6) | 1.7 | 0.5 | 15.2 |
| Derbynebion a thaliadau net a ddygwyd ymlaen i flynyddoedd diweddarach[2&3] | 7.7 | (1.1)[3] | - | - | 6.6 |
| Cyfanswm y derbynebion a'r taliadau gwirioneddol a'r rhai a ddygwyd ymlaen | 26.3 | (6.7) | 1.7 | 0.5 | 21.8 |
| **Perfformiad ariannol gwirioneddol o gymharu â'r amcangyfrif terfynol[4]** | **(0.5)** | **1.4** | **-** | **-** | **0.9** |

NODYN

1 Gostyngwyd amcangyfrif y Gorfforaeth o £25.8 miliwn ar gyfer 2000-01 £4.7 miliwn gan swyddogion Llywodraeth y Cynulliad ar y dybiaeth y byddai hyn yn cael ei wario mewn blwyddyn ddiweddarach. Felly, cofnodwyd yr amcangyfrif ar gyfer 2000-01 a nodwyd yn fy adroddiad Sicrhau Dyfodol Bae Caerdydd ar gyfer y cyfrifoldebau a dderbyniwyd gan y Cyngor Sir o'r Gorfforaeth Datblygu bob amser fel £21.1 miliwn.

2 Ni wireddwyd nifer o'r derbynebion a'r taliadau unigol yr amcangyfrifwyd y byddent yn digwydd yn 2000-01. Daw'r taliadau hyn i law a derbynnir y derbynebion hyn mewn blynyddoedd i ddod. Felly, er mwyn sicrhau y caiff perfformiad ariannol ei fesur ar sail tebyg at ei debyg, cynhwysir y symiau hyn a ddygir ymlaen yn y dadansoddiad hwn.

3 Gwerthodd yr Awdurdod ddau eiddo yn 2000-01 y rhagwelodd y Gorfforaeth Datblygu y byddent yn cael eu gwerthu mewn blynyddoedd diweddarach. Gwnaed elw o ychydig dros £1 filiwn ar y gwerthiannau hyn. Addaswyd y ffigurau a ddygwyd ymlaen i adlewyrchu hyn ac i sicrhau y caiff y perfformiad ariannol ar gyfer 2000-01 ei fesur ar sail gyson.

4 Mae'r ffigurau mewn cromfachau yn dangos troswariant yn erbyn yr amcangyfrif terfynol a luniwyd gan y Gorfforaeth.

*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru o wybodaeth a ddarparwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.*

2.10 Yn ogystal â'r amcangyfrif cadarn ar gyfer pum mlynedd cyntaf y trefniadau olynol a gaiff ei adolygu'n rheolaidd, mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd yn ymrwymedig i barhau i ariannu rhai gweithgareddau penodol ar ôl diwedd y cyfnod hwn. Yn eu plith bydd:

- costau rhedeg Awdurdod Harbwr Caerdydd;
- costau rhedeg Gwarchodfa Natur Gwlyptiroedd Gwastadeddau Gwent; a
- costau rheoli Parc Plymouth.

Yn ogystal, mae Llywodraeth y Cynulliad yn ymrwymedig i dalu tâl unedol blynyddol o £5.4 miliwn dros oes cynllun PFI Rhodfa Bute, sef pum mlynedd ar hugain. Mae manylion y Cynllun Rhodfa Bute yn Rhan pedwar yr adroddiad hwn.

## Monitro a goruchwylio

2.11 Yn ystod archwiliad Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru, parhaodd Llywodraeth y Cynulliad i ddatblygu trefniadau ar gyfer monitro a goruchwylio'r pedwar sefydliad olynol. Derbyniodd is-adrannau perthnasol Llywodraeth y Cynulliad gyfrifoldeb dros oruchwylio'r rhwymedigaethau newydd a etifeddwyd gan yr Awdurdod a'r Cyngor Cefn Gwlad fel rhan o'u rôl fonitro ehangach mewn perthynas â'r cyrff cyhoeddus hyn a noddir. Gostyngwyd nifer staff yr is-adran noddi a oedd yn goruchwylio gwaith y Gorfforaeth Datblygu ond gweithia o hyd i fonitro gwaith Cyngor Sir/Awdurdod Harbwr Caerdydd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg. Dengys **Ffigur 2.3** yn fanylach yr agweddau allweddol ar y rôl monitro a goruchwylio a wneir bellach gan Lywodraeth y Cynulliad.

## Ffigur 2.3

### Cyfrifoldebau Llywodraeth y Cynulliad o ran y trefniadau olynol ym Mae Caerdydd

Yn nhermau'r holl gyrff olynol, mae Llywodraeth y Cynulliad yn anelu at:

- Sicrhau y caiff yr arian ei wario o fewn cwmpas a swm y cyllidebau blynyddol a gymeradwyir gan Lywodraeth y Cynulliad;
- Cymhwyso rheolaethau ariannol a rheolaethau rheoli eraill sy'n ddigonol i ddiogelu arian cyhoeddus a sicrhau bod y rheini a gymhwysir gan y cyrff olynol yn cydymffurfio â gofynion rheoleidd-dra a rheolaeth ariannol dda; a
- Cymeradwyo pob cais i gwmpasu costau gwariant ychwanegol.

Yn fwy penodol mewn perthynas ag Awdurdod Harbwr Caerdydd a Chyngor Sir Caerdydd mae Llywodraeth y Cynulliad yn ceisio sicrhau:

- Bod yr amodau sydd ynghlwm wrth y taliadau grant yn cydymffurfio â gofynion y cytundeb Adran 165 a thelerau'r cyllidebau a gymeradwywyd a bod trefniadau ar waith i fonitro cydymffurfiad â'r amodau hynny;
- Bod y Cyngor yn darparu gwybodaeth i ategu ei gynlluniau ariannol a Chynllun Busnes yn cynnwys targedau perfformiad ac allbwn perthnasol, (gan gynnwys rhai economaidd ac amgylcheddol) ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod a'r 2 flynedd ganlynol;
- O fewn 9 mis o ddiwedd y cyfnod y mae'n berthnasol iddo, bod y Cyngor yn cyflwyno Adroddiad Blynyddol sy'n amlinellu prif weithgareddau a pherfformiad y Cyngor mewn perthynas â'i swyddogaethau o dan y Cytundebau Adran 165 yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol - ynghyd â chyfrif gwariant ariannol y Cyngor;
- Bod y Cyngor yn ceisio cymeradwyaeth ymlaen llaw gan Lywodraeth y Cynulliad i waredu Asedau a drosglwyddwyd i'r Cyngor o dan y cytundebau Adran 165;
- Bydd y Cyngor yn adolygu'r gwasanaethau a ddarperir ganddo mewn perthynas â'i weithgareddau o dan y cytundeb Adran 165 yn unol â'i ddyletswydd Gwerth Gorau; ac
- Fel y dywedwyd yn y cytundeb Adran 165, bydd Llywodraeth y Cynulliad a'r Cyngor Sir yn adolygu'r trefniadau ar derfyn y cyfnod pum mlynedd cychwynnol.

*Ffynhonnell: Cynulliad Cenedlaethol Cymru*

## Ffigur 2.4

### Materion allweddol a ddaeth i'r amlwg

**Grant nas gwariwyd**

Mae'r cytundeb Adran 165 gydag Awdurdod yr Harbwr yn darparu y gall y partïon gytuno ar drefniadau talu grant ar gyfer nodi'r costau a ddaw i law ac ar gyfer sicrhau ceisiadau a thaliadau prydlon. Trafodwyd a gweithredwyd trefniadau talu grant gyda'r taliad cyntaf yn cael ei wneud ym mis Ebrill 2000. Ym mis Mawrth 2001, ar ddiwedd blwyddyn gyntaf Awdurdod yr Harbwr o gyfnod gweithredol o dair blynedd, cyflwynodd y Cyngor gais am grant mawr. Ymddangosai i swyddogion y Cynulliad fod cyfiawnhad dros hyn er mwyn ariannu prosiectau cyfalaf mawr gan gynnwys treillio'r bae ac ocsideiddio. Fel rhan o'r dull monitro a rheoli diwedd y flwyddyn, mae swyddogion Llywodraeth y Cynulliad wedi cadarnhau nad oedd Awdurdod yr Harbwr wedi gwario'r rhan fwyaf o swm o £3.3 miliwn y gofynnodd Cyngor Sir Caerdydd amdano ym mis Mawrth 2001. Fe ddaeth yn amlwg hefyd i'r swyddogion nad oedd unrhyw gynlluniau uniongyrchol i wario'r swm hwn. Ar adeg llunio fersiwn terfynol yr adroddiad hwn roedd swyddogion Llywodraeth y Cynulliad wrthi o hyd yn trafod y trefniadau cyflwyno grant gyda swyddogion y Cyngor. O ganlyniad, gohiriwyd talu ceisiadau grant y Cyngor ar gyfer mis Rhagfyr 2001 ac ar gyfer mis Ionawr a mis Chwefror 2002 hyd nes y datrysir y mater. Ailgychwynwyd taliadau grant i'r Cyngor ym Mawrth 2002 ar y sail o sicrhau fod gan y Cyngor adnoddau digonol i gwrdd ag anghenion presennol ac uniongyrchol.

**Costau terfynol y flwyddyn gyntaf o weithredu**

Mae un o swyddogaethau allweddol Llywodraeth y Cynulliad yn ymwneud â monitro a goruchwylio ariannol ac, yn benodol, sefydlu costau gwirioneddol y trefniadau olynol yn flynyddol. Er mwyn gwneud hyn, mae'n rhaid i swyddogion Llywodraeth y Cynulliad gael gwybodaeth ariannol fanwl gan bob un o'r cyrff olynol. Nid oedd rhywfaint o'r data ariannol hwn ar gyfer y flwyddyn ariannol 2000-01 ar gael gan y cyrff olynol hyd nes mis Ionawr 2002. Er mwyn cyflawni ei chyfrifoldebau yn effeithiol mae angen gwybodaeth amserol ar Lywodraeth y Cynulliad. Mae'n rhesymol disgwyl i Lywodraeth y Cynulliad gael gwybodaeth alldro derfynol ar gostau cyrff olynol o fewn chwe mis o ddiwedd y flwyddyn ariannol berthnasol.

**Terfynu'r memorandwm ariannol gydag Awdurdod yr Harbwr.**

Er bod priod rolau a chyfrifoldebau Llywodraeth y Cynulliad ac Awdurdod yr Harbwr wedi'u nodi yn y cytundeb Adran 165, mae angen sefydlu dulliau monitro a goruchwylio pwysig eraill er mwyn cynnal ac ategu telerau'r cytundeb hwnnw. Un o'r dulliau hynny yw'r Memorandwm o Amodau Ariannu a fydd yn nodi'r fframwaith ariannol manwl y mae Awdurdod yr Harbwr yn gweithredu o'i fewn. Yn bennaf o ganlyniad i'r dehongliad ar y ddarpariaeth o ran trin TAW, ni therfynwyd y memorandwm ariannol.

*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru*

2.12 Fel y noda Ffigur 2.3, byddai sefydlu strwythurau priodol i gynorthwyo wrth fonitro'r ddau awdurdod lleol bob amser yn her i Lywodraeth y Cynulliad. Y prif reswm am hyn oedd yr ymrwymiad cytundebol pum mlynedd newydd a chymhleth a drefnwyd rhwng y Gorfforaeth Datblygu a Chyngor Sir Caerdydd o ran gweithredu cyfrifoldebau Awdurdod yr Harbwr. O ganlyniad, nid yw'n syndod i rai materion byr dymor ddod i'r amlwg. Gellir eu priodoli'n rhannol o leiaf i'r ffordd yr ymgymerodd Llywodraeth y Cynulliad â'i rôl fonitro a goruchwylio. Disgrifir y materion hyn yn **Ffigur 2.4**.

2.13 Yn dilyn y flwyddyn gyntaf o weithredu ac yng ngoleuni'r materion a ddaeth i'r amlwg, adolygodd Llywodraeth y Cynulliad ei strwythur staffio a chymorth a'i atgyfnerthu. Croesawodd Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru y datblygiad hwn gan ei bod yn amlwg yn bwysig bod gan Lywodraeth y Cynulliad strwythurau staffio a chymorth priodol ar waith i hwyluso'r gwaith o fonitro a goruchwylio gweithgareddau'r pedwar sefydliad olynol yn effeithiol. Daw hyn yn gynyddol bwysig dros y blynyddoedd sydd i ddod, yn arbennig wrth i Lywodraeth y Cynulliad symud tuag at adolygu a chytuno ar drefniadau ariannu ar gyfer Awdurdod yr Harbwr ar ddiwedd y cyfnod cychwynnol o bum mlynedd.

## Gwerthuso

2.14 Agwedd bwysig arall ar rôl Llywodraeth y Cynulliad wrth hwyluso cwblhau adfywiad Bae Caerdydd yn llwyddiannus yw'r angen i asesu a gwerthuso'r hyn a gyflawnwyd. Roedd Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd wedi sefydlu cyfres o dargedau adfywio i fesur ei pherfformiad yn eu herbyn. Fodd bynnag, wrth ddirwyn y Gorfforaeth i ben, nid oedd y cytundebau Adran 165 yn gosod rhwymedigaeth ar y cyrff olynol i gasglu'r data a fyddai'n galluogi i'r gwaith o fesur cynnydd yn erbyn y targedau hyn barhau.

2.15 Fodd bynnag, gall Llywodraeth y Cynulliad gomisiynu adolygiad annibynnol o'r cynnydd a wnaed wrth adfywio ardal Bae Caerdydd ers dirwyn y Gorfforaeth i ben. Yn wir pan ystyriodd y Pwyllgor Archwilio fy adroddiad, *Sicrhau Dyfodol Bae Caerdydd*, nododd Ysgrifennydd Parhaol y Cynulliad yn amodol ar dderbyn y gymeradwyaeth angenrheidiol, y byddai am i Lywodraeth y Cynulliad gynnal gwerthusiad trwyadl o'r cynnydd wrth adfywio Bae Caerdydd, yn gyffredinol ond, yn arbennig, yn nhermau'r hyn a gyflawnwyd ers dirwyn y Gorfforaeth Datblygu i ben. Nododd hefyd ei fod o'r farn bod asesu i ba raddau y cyflawnwyd y targedau a bennwyd ar gyfer y Gorfforaeth a chan y Gorfforaeth yn agwedd allweddol ar unrhyw werthusiad cyfannol.

2.16 O ystyried hyn, bydd angen cynnal gwerthusiad cyffredinol o'r broses o adfywio Bae Caerdydd ar ryw adeg. Bydd yn arbennig o bwysig i ymarfer o'r fath alluogi Llywodraeth y Cynulliad i ddangos yn ddiamheuol y cyflawnwyd gwerth am arian o'r buddsoddiad adnoddau sylweddol a wnaed ym Mae Caerdydd, a'i fod yn parhau i gael ei gyflawni.

# RHAN 3 CYNGOR SIR CAERDYDD

3.1 Trefnodd Cyngor Sir Caerdydd ddau gytundeb Adran 165 gyda Chorfforaeth Datblygu Bae Caerdydd. Roedd y cytundeb cyntaf yn ymwneud ag Awdurdod Harbwr Caerdydd. Crëwyd Awdurdod yr Harbwr ar ôl dirwyn y Gorfforaeth Datblygu i ben ac mae'n rhan o Gyngor Sir Caerdydd. Ar 1 Ebrill 2000, ymgymerodd Awdurdod yr Harbwr â chyfrifoldebau eang. Yn eu plith roedd:

- cwblhau'r gwaith o adeiladu Morglawdd Bae Caerdydd a chontractau cysylltiedig ynghyd â sicrhau cronfa ddŵr croyw yn y Bae;
- gweithredu'r mesurau diogelu dŵr daear ac iawndal;
- cwblhau nifer o gynlluniau o amgylch y Bae nas cwblhawyd gan y Gorfforaeth Datblygu; a
- rheoli a gweithredu'r Morglawdd a'r Bae o ddydd i ddydd, yn arbennig sicrhau y bodlonir gofynion Deddf Morglawdd Bae Caerdydd 1993 a gofynion Asiantaeth yr Amgylchedd.

3.2 O dan y cytundeb Adran 165, bydd y trefniadau ar gyfer Awdurdod yr Harbwr yn cael eu hadolygu ar ôl pum mlynedd pan all Llywodraeth y Cynulliad a'r Cyngor Sir gytuno ar delerau amgen neu ddod â'r cytundeb i ben. Mae angen i'r adolygiad hwn ddigwydd ymhen blwyddyn ar ôl i'r cyfnod pum mlynedd cyntaf ddod i ben neu ymhen cyfnod hwy wedi'i gytuno gan Lywodraeth y Cynulliad a'r Cyngor Sir ill dau. Mae hefyd yn datgan pe na roddwyd rhybudd i adolygu'r trefniadau o fewn y graddfeydd amser hyn yna y byddai'r Cyngor Sir yn cadw yn fytholbarhaus gyfrifoldeb dros y Bae a'r Morglawdd. Ar yr adeg honno ni fyddai unrhyw gyfle pellach i adolygu, newid neu ddod â thelerau'r cytundeb Adran 165 i ben.

3.3 Roedd yr ail gytundeb Adran 165 yn ymwneud â throsglwyddo tri maes cyffredinol o gyfrifoldeb i'r Cyngor sef:

- rhoi'r mesurau adfywio trosiannol ar waith ym Mae Caerdydd;
- cwblhau prosiectau eraill nas cwblhawyd; a
- parhau i gynnal a chadw asedau fel ffyrdd, llwybrau troed, llwybrau cerdded a mannau agored cyhoeddus a ariannwyd ac a sefydlwyd gan y Gorfforaeth.

## Perfformiad ariannol

3.4 Amcangyfrifodd y Gorfforaeth, dros y cyfnod o bum mlynedd o 2000-01 i 2004-05, y byddai angen £72.8 miliwn ar Gyngor Sir Caerdydd i gyflawni'r cyfrifoldebau a osodwyd arno gan y ddau gytundeb Adran 165. Yn 1999-2000 derbyniodd y Cyngor Sir £500,000 gan y Gorfforaeth tuag at gost sefydlu Awdurdod yr Harbwr a thaliad unigol o ychydig o dan £6 miliwn i gwmpasu cost cynnal a chadw isadeiledd fel ffyrdd a llwybrau cerdded yn ardal Bae Caerdydd.

3.5 Ar gyfer 2000-01, yn seiliedig ar amcangyfrif y Gorfforaeth, roedd angen £21.1 miliwn ar Gyngor Sir Caerdydd. Lluniwyd y swm hwn ar ôl ystyried cyfanswm gwariant amcangyfrifedig o £25.8 miliwn llai swm o £4.7 miliwn a fyddai'n cael ei wario mewn blynyddoedd diweddarach. Dengys **Ffigur 3.1** sut y rhannwyd yr amcangyfrif o £25.8 miliwn ar draws yr amrywiol gyfrifoldebau a etifeddwyd gan y Cyngor Sir. Dengys hefyd gan ystyried trafodion ar gyfer y flwyddyn ac ymrwymiadau yn ymwneud â 2000-01 a ddygwyd ymlaen i flynyddoedd yn y dyfodol y bu gorwariant net o £0.5 miliwn.

3.6 Gellir priodoli'r rhan fwyaf o'r gorwariant hwn i'r costau yr aethpwyd iddynt wrth gwblhau prosiect y Morglawdd. Mae'r rhain yn gostau y mae Llywodraeth y Cynulliad yn rhwym i'w gwarantu ac nid yw'n adlewyrchiad o'r ffordd y mae Awdurdod yr Harbwr yn rheoli ei swyddogaethau. Felly, roedd costau rhedeg Awdurdod yr Harbwr yn is na'r hynny a ragwelwyd yn y flwyddyn weithredu gyntaf ac o ganlyniad gwrthbwyswyd rhywfaint o'r tanwariant ar brosiect y Morglawdd gan yr arbedion hyn. Archwilir y costau sy'n gysylltiedig â chwblhau prosiect y Morglawdd yn fanylach isod.

3.7 Gellir priodoli rhan o'r gorwariant net i'r ffaith yr aethpwyd i rai costau yn gynt na'r disgwyl. O ystyried y gwahaniaethau amseru, y costau yr aethpwyd iddynt yn 2000-01 a'r costau a ailamcangyfrifwyd ar gyfer blynyddoedd yn y dyfodol, dros y cyfnod o bum mlynedd o 2000-01 i 2004-05 gofyniad ariannu Cyngor Sir Caerdydd yw £73.9 miliwn. Gellid gostwng y swm hwn o hyd at £2 filiwn, gan fod Awdurdod yr Harbwr wedi dewis rhoi dull amgen o gynnal lefelau ocsigen toddedig ar waith yn y Bae na'r dull a gynigiwyd gan y Gorfforaeth (paragraff 3.29). Golyga hyn gynnydd cymharol fach o ran arian dros yr amcangyfrif gwreiddiol o £72.8 miliwn. Mae'n bwysig nodi mai dim ond y rhwymedigaethau a ragwelwyd ac a oedd yn feintiol ar adeg llofnodi'r cytundebau Adran

## Ffigur 3.1

### Dadansoddiad ariannol ar gyfer 2000-01

| | Costau rhedeg Awdurdod yr Harbwr | Cwblhau Prosiect y Morglawdd | Prosiectau nas cwblhawyd gan y Gorfforaeth[2] | Gwariant y memorandwm dealltwriaeth[3] | Cyfanswm ar gyfer y Cyngor Sir |
|---|---|---|---|---|---|
| | £ miliwn | £ miliwn | £ miliwn | £ miliwn | £ miliwn |
| Amcangyfrif terfynol y Gorfforaeth | 12.7 | 10.8 | 1.3 | 1.0 | 25.8[1] |
| Taliadau gwirioneddol | 5.4 | 9.6 | 2.1 | 1.5 | 18.6 |
| Derbynebion a thaliadau net a ddygwyd ymlaen i flynyddoedd diweddarach[4] | 3.9 | 4.9 | (0.6) | (0.5) | 7.7 |
| Cyfanswm y derbynebion a'r taliadau gwirioneddol a'r rhai a ddygwyd ymlaen[4] | 9.3 | 14.5 | 1.5 | 1.0 | 26.3 |
| Perfformiad ariannol gwirioneddol o gymharu â'r amcangyfrif terfynol | **3.4** | **(3.7)** | **(0.2)** | **0.0** | **(0.5)** |

**NODIADAU**

1 Gostyngwyd amcangyfrif y Gorfforaeth o £25.8 miliwn ar gyfer 2000-01, gan £4.7 miliwn gan swyddogion Llywodraeth y Cynulliad ar y dybiaeth y byddai'r swm hwn mewn gwirionedd yn llithro ac yn cael ei wario mewn blwyddyn ddiweddarach. Felly, cofnodwyd mai'r amcangyfrif ar gyfer 2000-01 a roddwyd yn fy adroddiad Sicrhau *Dyfodol Bae Caerdydd* ar gyfer cyfrifoldebau a drosglwyddwyd i'r Cyngor Sir o'r Gorfforaeth Datblygu oedd £21.1 miliwn.

2 Darparodd y cytundeb Adran 165 yn cwmpasu ffurfio Awdurdod yr Harbwr i'r Cyngor Sir gwblhau nifer o brosiectau a ddechreuwyd eisoes gan y Gorfforaeth. Gwarantwyd y costau hyn gan Lywodraeth y Cynulliad.

3 Mae hwn yn ymwneud â'r trefniadau ariannu trosiannol tair blynedd y cytunwyd arnynt gyda'r Cyngor Sir fel y'u nodir yn y memorandwm dealltwriaeth a lofnodwyd ym mis Ebrill 1999 rhwng arweinydd y Cyngor Sir ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar y pryd.

4 Ni ddigwyddodd nifer o dderbynebion a thaliadau unigol yr amcangyfrifwyd y byddent yn digwydd yn 2000-01. Daw'r taliadau hyn i law o hyd a derbynnir y derbynebion hyn mewn blynyddoedd yn y dyfodol. Felly, er mwyn sicrhau y caiff perfformiad ariannol ei fesur ar sail tebyg at ei debyg, cynhwysir y symiau hyn a ddygir ymlaen yn y dadansoddiad hwn.

*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru o wybodaeth a ddarparwyd gan Lywodraeth y Cynulliad.*

165 a gwmpesir gan yr amcangyfrifon hyn. Fel y costau ychwanegol yr aethpwyd iddynt mewn perthynas â phrosiect y Morglawdd mae'n bosibl y ceir costau eraill yn y dyfodol a fydd yn uwch na'r rheini yr amcangyfrifwyd y byddai Llywodraeth y Cynulliad hefyd yn gorfod eu talu. I'r gwrthwyneb lle bydd Awdurdod yr Harbwr yn tanwario mewn rhai meysydd mae'n bosibl y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn arbed arian.

3.8 Rhagwelwyd o'r cychwyn cyntaf y byddai Memorandwm o Amodau Ariannu rhwng Llywodraeth y Cynulliad a'r Cyngor yn sail i'r gofynion ariannol a osodwyd ar Gyngor Sir Caerdydd gan y cytundeb Adran 165 ar gyfer Awdurdod yr Harbwr. Ar adeg yr archwiliad a gynhaliwyd gan Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru, nid oedd fersiwn derfynol y ddogfen hon wedi'i chwblhau (ffigur 2.4). Yn benodol roedd yr oedi o ganlyniad i'r arian a fyddai'n cael ei arbed yn sgîl statws TAW awdurdod lleol y Cyngor Sir. O dan delerau Cytundeb Adran 165 Awdurdod yr Harbwr rhennir yr arbediad cost hwn yn gyfartal rhwng Llywodraeth y Cynulliad a'r Cyngor. Disgwylir i'r arbediad blynyddol fod yn llai na £0.5 miliwn. Mae hawl gan y Cyngor i ddefnyddio ei gyfran o'r arbedion hyn mewn perthynas â swyddogaethau, dyletswyddau a meysydd o Awdurdod yr Harbwr a bydd hwn yn rhwymedigaeth ariannol ychwanegol i'w ariannu gan Lywodraeth y Cynulliad.

3.9 Yn ogystal â'i waith monitro ei hun, y bwriad oedd y dylai Llywodraeth y Cynulliad allu bodloni ei hun ar yr archwiliad annibynnol y byddai archwilydd penodedig Comisiwn Archwilio'r Cyngor Sir, yr Archwiliad Dosbarth, yn ei gynnal. Byddai'r archwiliad hwn yn cael ei gynnal yn erbyn rhaglen o brofion a ddatblygwyd gan y Comisiwn Archwilio mewn cydweithrediad â swyddogion Llywodraeth y Cynulliad. Fodd bynnag, gan nad yw'r

Memorandwm o Amodau Ariannu wedi'i lofnodi eto, ni all y Comisiwn Archwilio roi ei raglen o brofion ar ei gwedd derfynol. Felly hyd yn hyn, ni chynhaliwyd archwiliad penodol o wariant blwyddyn gyntaf Awdurdod yr Harbwr, i sicrhau y defnyddiwyd yr arian a ddarparwyd at y diben bwriadedig. Mae Swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn hyderus y cwblheir yr archwiliad hwn yn y dyfodol agos.

## Adfywio parhaus

3.10 O'r cyfanswm arian pum mlynedd a amcangyfrifwyd ar gyfer y Cyngor Sir, sef cyfanswm o £72.8 miliwn, clustnodwyd tua £12 miliwn i gyflawni mesurau ariannu trosiannol a oedd yn cynnwys yn fras:

- Cronfa Adfywio gwerth £6.1 miliwn yn daladwy dros y tair blynedd o 2000-01 i 2002-03, yn seiliedig ar amcangyfrif y Gorfforaeth o barhau i weithredu swyddogaethau penodol dros dair blynedd;
- Cronfa Prosiect gwerth £ 4.6 miliwn yn seiliedig ar amcangyfrifon y Gorfforaeth i ariannu datblygiadau yn ardal y Bae yn ymwneud yn bennaf â chynlluniau y bwriadwyd ymgymryd â hwy ond nas cwblhawyd gan y Gorfforaeth ac ymrwymiadau cytundebol, gan gynnwys Parc Hamadryad, gwell tirlunio yn ardal y Morglawdd a'r Ffordd Fynediad i'r Clwb Hwylio; a
- gofyniad amcangyfrifiedig net gwerth £1.4 miliwn, y bu'n rhaid ei gynyddu i tua £2 filiwn er mwyn cwblhau prosiectau y dechreuwyd arnynt eisoes gan y Gorfforaeth gan gynnwys Piazza'r Basn Hirgrwn, tirlunio Widowlands a gwaith amddiffyn rhag llifogydd yn y Dociau Glanhau.

Ac eithrio'r mesurau ariannu trosiannol hyn eglurodd Llywodraeth y Cynulliad i'r Cyngor na fyddai'n mwynhau'r un lefelau o arian arbennig a dalwyd i'r Gorfforaeth yn y gorffennol.

3.11 O'r £12 miliwn hwn o arian trosiannol net sy'n daladwy dros dair blynedd, amcangyfrifodd y Gorfforaeth mai tua £8.5 miliwn oedd y gofyniad net ar gyfer 2000-01. Yn ystod y flwyddyn honno, gwariodd y Cyngor Sir tua £1.5 miliwn ar weithgareddau neu brosiectau a gynhwyswyd yn rhagolygon ariannu'r Gorfforaeth Datblygu. Nodir y rhain yn **Ffigur 3.2**. Defnyddiodd y Cyngor hefyd £5.5 miliwn o'r adnoddau a ddarparwyd gan y cronfeydd tuag at brynu'r safle y bu'r Gorfforaeth Datblygu yn berchen arno yn Ferry Road, a oedd, ym marn y Cyngor, yn rhan hanfodol o'i gynlluniau ar gyfer adfywio'r ardal honno o Fae Caerdydd.

**Ffigur 3.2**

**Gwariant 2000-01 ar brosiectau a gweithgareddau a glustnodwyd yn wreiddiol ar gyfer y gronfa adfywio a'r gronfa prosiectau**

| | £ 000oedd |
|---|---|
| Ffordd fynediad i Glwb Hwylio Caerdydd | 480 |
| Marchnata Caerdydd | 200 |
| Parc Hamadryad | 820 |
| **Cyfanswm** | **1,500** |

*Ffynhonnell: Llywodraeth Cynulliad Cymru*

3.12 Aeth gweddill yr amcangyfrif hwn o £8.5 miliwn tuag at ariannu'r prosiectau hynny a ddechreuwyd gan y Gorfforaeth ond nas cwblhawyd cyn ei dirwyn i ben. Mae'r Cyngor Sir wedi gwneud cynnydd da tuag at eu cwblhau.

3.13 Mae'n bwysig nodi yn y cyd-destun hwn bod Cyngor Sir Caerdydd yn penderfynu ar sut y bydd yn defnyddio'r adnoddau a ryddheir iddo drwy'r Gronfa Adfywio a'r Gronfa Prosiectau. Fel rhan o'r broses hon, mae'r Cyngor Sir yn ymgynghori â Swyddogion Llywodraeth y Cynulliad ynghylch ei gynlluniau ar gyfer y dyfodol. Yn achos y gronfa Adfywio, mae'n ofynnol i'r Cyngor ddatblygu rhaglen y mae'n rhaid i Lywodraeth y Cynulliad gytuno arni. Penderfynodd y Cyngor gyfuno'r arian gweddilliol o'r ddwy gronfa i un rhaglen adfywio, y cytunir arni gyda Llywodraeth y Cynulliad maes o law.

3.14 Dywedodd Swyddogion Llywodraeth y Cynulliad wrth Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru yr amharwyd ar gynlluniau'r Cyngor ar gyfer gwario adnoddau ei Gronfa Adfywio a'i Gronfa Prosiectau gan flaenoriaethau gweithredol pwysicach. Ar adeg yr archwiliad hwn, bu Cyngor Sir Caerdydd yn adolygu ei gynlluniau ar gyfer adfywio. Ymhlith y cynlluniau a ystyrir mae:

- Gweithredu cynllun gwreiddiol y Gorfforaeth am Warchodfa Gwlyptir ym Mae Caerdydd, ac adeiladu ffordd gerdded a man gwylio;
- Datblygu'r dociau glanhau i hybu twristiaeth a mynediad y cyhoedd yn ardal y Bae;

- Adeiladu llwybr cerdded o amgylch cymaint o ymyl y Bae a fyddai'n cynnwys llwybrau seiclo a mynediad i'r anabl lle bo'n bosibl; a
- Chyfraniad at y ffordd fynediad arfaethedig i'r Morglawdd.

3.15 Mae swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn fodlon bod y cynlluniau hyn yn bodloni nifer o'r ymrwymiadau a wnaed gan y Gorfforaeth a'u bod oll yn gyson ag adfywio ardal Bae Caerdydd. Yn amlwg, wrth i swyddogion drafod cynlluniau sy'n datblygu gyda'r Cyngor mae'n bwysig iddynt sefydlu'r rhesymeg sy'n sail iddynt. Dylid rhoi sylw penodol i'r cyfraniad y mae'r Cyngor Sir yn rhagweld y bydd ei newidiadau i gynigion gwreiddiol y Gorfforaeth Datblygu yn ei wneud i adfywiad parhaus Bae Caerdydd.

## Awdurdod yr Harbwr

3.16 Sefydlwyd Awdurdod yr Harbwr ar 1 Ebrill 2000 ar ôl dirwyn Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd i ben. Ei dasgau allweddol yw:

- gweithredu a rheoli Morglawdd Bae Caerdydd a'r Harbwr Mewnol;
- cynnal a chadw a monitro safonau dŵr a safonau amgylcheddol eraill yn y Bae a'r ardal gyfagos; a
- hybu'r Bae fel ased hamdden a busnes drwy ymgynghori â'r holl gyrff sydd â diddordeb.

3.17 Mae fy adroddiad, *Morglawdd Bae Caerdydd*, yn rhoi'r cefndir ar gyfer adeiladu'r Morglawdd a chreu'r llyn dŵr croyw mewndirol: sef y prosiect a oedd yn ganolbwynt i weithgareddau'r Gorfforaeth Datblygu. Adlewyrchir arwyddocâd y prosiect hwn a'r trefniadau a oedd yn angenrheidiol i'w reoli ar ôl ei gwblhau yn y rhagolygon gwariant ar gyfer Awdurdod yr Harbwr ar gyfer y cyfnod o bum mlynedd o 2000-01 i 2004-05. Mae'r rhagolygon hyn yn rhagweld y bydd angen arian net gwerth tua £58.7 miliwn ar Gyngor Sir Caerdydd ar gyfer y costau yr â Awdurdod yr Harbwr iddynt wrth reoli, gweithredu a chynnal a chadw'r Morglawdd a'r Bae.

3.18 Mae Awdurdod yr Harbwr ei hun yn un o bwyllgorau Cyngor Sir Caerdydd ac mae deuddeg o gynghorwyr Sir ymhlith eu aelodau. Mae Awdurdod yr Harbwr yn cynnwys dau enwebedig sy'n cynrychioli barn y sector preifat. Enwebir nhw gan Siambr Masnach Caerdydd. Mae Awdurdod yr Harbwr yn cyflogi tua wyth deg o bobl i gyflawni ei gyfrifoldebau. Yn ogystal â chynnal ei weithrediadau, gall Awdurdod yr Harbwr ddefnyddio gwasanaethau eraill y Cyngor. Defnyddia hefyd wasanaethau cyffredin y Cyngor fel y rheini a ddarperir gan yr adrannau cyllid, adnoddau dynol a thechnoleg gwybodaeth. Wrth lunio fersiwn derfynol y cytundeb Adran 165 ar gyfer Awdurdod yr Harbwr, pwysleisiodd Cyngor Sir Caerdydd y cyfraniad y byddai'r ymagwedd hon yn ei wneud wrth alluogi Awdurdod yr Harbwr i weithredu yn ddarbodus.

3.19 Ym mis Ebrill 2001 cytunodd Awdurdod yr Harbwr ar ei gynllun busnes ar gyfer y cyfnod o bum mlynedd o 2000-01 i 2004-05 ac fe'i cyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2001. Ymhlith pethau eraill roedd y ddogfen hon yn nodi prif nodau Awdurdod yr Harbwr **(Ffigur 3.3)**. Ystyriodd Pwyllgor Datblygu Economaidd y Cynulliad y ddogfen ym mis Ionawr 2002. Yn y cyfarfod hwn mynegodd nifer o aelodau'r Cynulliad bryder a siom am yr oedi a fu wrth gynhyrchu'r cynllun.

**Ffigur 3.3**

**Prif nodau Awdurdod yr Harbwr**

- Sicrhau y bodlonir pob rhwymedigaeth statudol - yn bennaf y rheini a nodir yn Neddf Morglawdd Bae Caerdydd ond hefyd y rheini sy'n gysylltiedig â'i statws fel Awdurdod Harbwr;
- Cyflawni a chynnal hyder y cyhoedd yn y Bae, y Morglawdd ac Awdurdod yr Harbwr;
- Sicrhau na cheir llifogydd yng Nghaerdydd o ganlyniad i adeiladu'r Morglawdd;
- Gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o'r asedau a reolir gan Awdurdod yr Harbwr;
- Cyflawni'r safonau amgylcheddol gorau posibl ledled ardal Awdurdod yr Harbwr;
- Cyfrannu at les yr Aber Hafren gyfan a'i chyffiniau cysylltiedig; a
- Cynyddu'r buddiannau i bob rhanddeiliad sy'n deillio o'r Bae i'r eithaf.

*Ffynhonnell: Cynllun busnes Awdurdod Harbwr Caerdydd*

### Costau Awdurdod yr Harbwr

3.20 Amcangyfrifwyd mai £58.7 miliwn fyddai costau Awdurdod yr Harbwr dros y cyfnod o bum mlynedd o 2000-01 i 2004-05. O'r cyfanswm hwn

amcangyfrifwyd y byddai £12.7 miliwn ohono yn digwydd yn ystod 2000-01. Yn erbyn yr amcangyfrif hwn, y costau gwirioneddol yr aethpwyd iddynt wrth redeg Awdurdod yr Harbwr, yn ystod ei flwyddyn weithredu gyntaf, oedd £9.3 miliwn, sef tanwariant o £3.4 miliwn. Gan fod costau'r flwyddyn gyntaf bellach yn hysbys a bod dealltwriaeth well o ran gweithrediadau Awdurdod yr Harbwr, mae amcangyfrif swyddogion Llywodraeth y Cynulliad o'r costau rhedeg pum mlynedd diwygiedig yn is, sef £55.5 miliwn. Mae'r swm hwn yn dal i gynnwys y lwfans cost sefydlog llawn a mae wedi cael ei leihau achos bod swyddogion Llywodraeth y Cynulliad wedi rhagweld y bydd costau newidiol yn is. Mae'n bwysig nodi yn y cyd-destun hwn bod Swyddogion Llywodraeth y Cynulliad wrthi'n trafod proffiliau ariannu diwygiedig gyda'r Cyngor Sir mewn perthynas â 2001-02 i 2004-05 ac fe'u hadolygir yn reolaidd. Felly, mae'n bosibl y cânt eu newid eto o bryd i'w gilydd.

3.21 Ym mis Rhagfyr 1999, cyhoeddodd y Prif Ysgrifennydd ar y pryd y byddai'r Cyngor Sir, yn ei rinwedd fel Awdurdod yr Harbwr, yn defnyddio ei weithlu ei hun i reoli, gweithredu a chynnal a chadw'r Morglawdd a'r llyn dŵr croyw yn hytrach na threfnu contract rheoli cyfleusterau, sef dewis opsiwn y Gorfforaeth. Un o'r ffactorau allweddol wrth ddod i'r penderfyniad oedd gwarant y Cyngor Sir y byddent yn ymgymryd â'r gwaith am swm o £3 miliwn yn llai na'r swm a gyflwynwyd gan ddewis gynigiwr y Gorfforaeth. Atgyfnerthwyd y gwarant hwn yn y cytundeb Adran 165. Gosododd y cytundeb hwnnw derfyn ar y swm y gallai'r Cyngor Sir ei wario ar y gweithgareddau hyn, sef £19.3 miliwn. Ar ôl ystyried y risg a gymerwyd, cytunwyd y derbyniai'r Cyngor unrhyw gynilion cysylltiedig â chostau cyfalaf yr offer ocsigeneiddio a byddai'r arian hwn yn cael ei ddefnyddio er lles cyffredinol y Bae.

3.22 Ar adeg llunio fersiwn derfynol yr adroddiad hwn, roedd swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio gyda'r Cyngor Sir i bennu lefel y costau yr aethpwyd iddynt yn ystod y flwyddyn gyntaf a oedd yn ymwneud â'r gwasanaethau y byddid wedi'u darparu o dan gontract rheoli cyfleusterau. Mae'r swyddogion yn hyderus bod yr amcangyfrifon darpariaethol yn dangos fod y Cyngor ar y trywydd cywir i arbed mwy na'r £3m. Gellid gweld arbediad pellach drwy osod dull amgen o gynnal lefelau ocsigen toddedig yn y Bae (paragraff 3.29).

## Cwblhau prosiect y Morglawdd a chyflawni cronfa ddŵr croyw

3.23 Pan fu i'r Gorfforaeth Datblygu ddirwyn ei materion i ben, er bod y rhan fwyaf o'r gwaith o adeiladu'r Morglawdd wedi'i gwblhau, roedd nifer o faterion arwyddocaol yn dal heb eu datrys. Yn eu tro, gosododd y materion hyn ofynion arwyddocaol ar reolwyr Awdurdod yr Harbwr. Nid oedd systemau gweithredu'r Morglawdd yn gwbl weithredol a bu'n rhaid i Awdurdod yr Harbwr gywiro anawsterau gweithredol gyda llifddorau'r morglawdd a'r llwybr pysgod. Bu'n rhaid iddo hefyd drefnu i bwmp heli gael ei osod er mwyn sicrhau bod cyn lleied o heli â phosibl yn cyrraedd y Bae Mewndirol a chwblhau dau brosiect cyfalaf mawr er mwyn cyflawni cronfa ddŵr croyw erbyn 31 Mawrth 2001. Roedd y ddau brosiect hyn yn ymwneud â charthu a gosod system awyru i gynnal ansawdd y dŵr yn y Bae Mewndirol.

3.24 Amcangyfrifodd y Gorfforaeth Datblygu y byddai'n costio tua £8 miliwn i gwblhau prosiect y Morglawdd **(Ffigur 3.4)**. Yn fy adroddiad, *Morglawdd Bae Caerdydd,* (paragraff 2.19), nodais ym mis Mehefin 2000 mai £213.4 miliwn oedd cyfanswm cost cymeradwyo'r prosiect a'i fod yn cynyddu i £220 miliwn o gynnwys gwariant cyfalaf ychwanegol gwerth £7 miliwn ar gyfer cynnal ansawdd y dŵr yn y Bae.

**Ffigur 3.4**

**Amcangyfrif o'r costau ar gyfer cwblhau prosiect y Morglawdd**

| | £m |
|---|---|
| Contract adeiladu | 1.8 |
| Carthu (gan gynnwys carthu dyfnach) | 5.5 |
| Draenio | 3.1 |
| Tirlunio | 0.9 |
| Arall | (3.3)[1] |
| | **8.0** |

**NODIADAU**

1 Dangoswyd costau eraill sy'n ymwneud â phrosiect y morglawdd yn net o £4.3 miliwn sy'n ddyledus gan Dŵr Cymru yn 2005 mewn perthynas â chyfraniad tuag at gostau gwaith draenio sy'n gysylltiedig â'r prosiect.

Cyffredinol Rhagwelwyd y byddai'r gwariant sy'n gysylltiedig â'r amcangyfrif net hwn yn digwydd dros y cyfnod o bum mlynedd o 2000-01 i 2004-05.

*Ffynhonnell: Amcangyfrifon a baratowyd gan Gorfforaeth Datblygu Bae Caerdydd mewn cydweithrediad â Llywodraeth y Cynulliad*

3.25 Roedd y cytundeb Adran 165 a oedd yn ymwneud ag Awdurdod yr Harbwr hefyd yn darparu £5.5 miliwn ychwanegol i ddarparu offer i gynnal lefelau ocsigen. Bu'r swm hwn yn rhan o lwfans cyfalaf mwyaf o ychydig dros £8 miliwn. O dan y cytundeb Adran 165 mae Llywodraeth y Cynulliad yn gwarantu costau sy'n deillio o gwblhau prosiect y Morglawdd ac, felly, rhaid i Lywodraeth y Cynulliad ariannu unrhyw wariant nas rhagwelwyd. I'r gwrthwyneb, pe bai costau yn is na'r wyth miliwn mwyaf o bunnoedd, byddai unrhyw gynilion yn eiddo i'r Cynulliad. Cadarnhaodd swyddogion bod yr amcangyfrif cyfredol o gost alldro derfynol Prosiect y Morglawdd yn parhau'n agos iawn i'r terfyn o £220 miliwn. Fodd bynnag, nid yw'r gost derfynol wirioneddol yn debygol o fod yn hysbys tan 2004-05. Unwaith y daw'n hysbys, bydd Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru yn asesu'r rhesymau am unrhyw gynnydd uwch ben y terfyn o £220 miliwn ac yn cyflwyno adroddiad arnynt.

### Carthu

3.26 Un o amcanion y Gorfforaeth Datblygu oedd cyflawni cronfa ddŵr croyw ym Mae Caerdydd cyn ei dirwyn i ben ym mis Mawrth 2000. Yn ystod mis Tachwedd 1999, dechreuodd Llywodraeth y Cynulliad bryderu o ddifrif o ran ymarferoldeb a fyddai'r Gorfforaeth Datblygu yn cyflawni hyn. Er nad oedd y Gorfforaeth wedi dechrau ar y gwaith o garthu'r Bae, gwnaeth gais am awdurdodaeth i osod contract. Roedd Llywodraeth y Cynulliad yn pryderu'n benodol am allu'r Gorfforaeth i osod, monitro a chwblhau contract carthu gwerth £5.4 miliwn erbyn 31 Mawrth 2000. Roedd contract a fyddai'n bodloni isafswm gofynion Deddf y Morglawdd yn hanfodol i sicrhau cronfa ddŵr croyw. Ar 7 Rhagfyr 1999, cyhoeddodd y Prif Ysgrifennydd y byddai'r gronfa ddŵr croyw yn cael ei gohirio tan 31 Mawrth 2001.

3.27 Y ddarpariaeth gyllidebol a oedd yn weddill i'r Gorfforaeth Datblygu ar gyfer yr isafswm carthu hwn oedd £4 miliwn. Roedd hefyd ganddi gyllideb o £1.5 miliwn ar gyfer carthu dyfnach i gynyddu'r amrywiaeth o chwaraeon dŵr y gellid eu cynnal. O ganlyniad cynyddodd cyfanswm y ddarpariaeth gyllidebol ar gyfer carthu i £5.5 miliwn. Gyda chymeradwyaeth Llywodraeth y Cynulliad, gosododd Awdurdod yr Harbwr gontract a oedd yn cynnwys carthu dyfnach ym mis Hydref 2000 a chwblhawyd y gwaith o fewn terfynau amser y contract sef erbyn 31 Mawrth 2001. Er nad yw costau'r gwaith wedi'u terfynu eto, amcangyfrifir mai tua £7.3 miliwn fydd yr alldro, £2.8 miliwn yn fwy na'r ddarpariaeth ariannol a amcangyfrifwyd gan y Gorfforaeth. Mae'n bwysig nodi bod y contract a gytunwyd gan Awdurdod yr Harbwr yn ehangach na'r hyn a ragwelai'r Gorfforaeth. Tybir y cynhwysai garthu er mwyn cyflwyno amrywiaeth ehangach o ddefnyddiau dwr a charthu'r Dociau sych. Y Cyngor a dalodd am y costau uwch o'r cynilion a arbedwyd o'r costau is nag y disgwylid o gostau blwyddyn gyntaf Awdurdod yr Harbwr.

### Y System Awyru

3.28 Agwedd hanfodol arall ar gyflawni cronfa ddŵr croyw oedd gosod offer a fyddai'n cynnal lefelau ocsigen toddedig ar isafswm o bum miligram fesul litr o ddŵr, y lefel a bennir yn Neddf Morglawdd Bae Caerdydd 1993. Er mwyn bodloni'r safon hon, rhagwelodd y Gorfforaeth Datblygu ddull o ocsigeneiddio a oedd yn cynnwys caffael cwch a gynlluniwyd yn benodol y cyfeiriwyd ato fel 'byrlymydd'. Byddai'r cwch hwn wedi pwmpio dŵr wedi'i ocsigeneiddio i'r rhannau o'r Bae a oedd yn debygol o syrthio'n is na'r safon benodedig. Byddai dwy uned ocsigeneiddio lai wedi cynorthwyo'r 'Byrlymydd' wrth gynnal lefelau ocsigen toddedig. Roedd rhagolygon gwariant Awdurdod yr Harbwr yn seiliedig ar ddefnyddio'r dull hwn o ocsigeneiddio.

3.29 Rhoddodd yr oedi wrth gronni dŵr croyw gyfle i Awdurdod yr Harbwr asesu dulliau eraill o sicrhau'r lefel ofynnol o ocsigen toddedig. O ganlyniad dewisodd Awdurdod yr Harbwr system wahanol i'r system a gynigiwyd gan y Gorfforaeth Datblygu. System awyru oedd y system hon a oedd yn golygu gosod system o bibellau tanddwr o amgylch y Bae sy'n cymysgu'r dŵr er mwyn i ocsigen toddedig gael ei ddosbarthu drwy ddyfnderau'r Bae. Drwy ymgynghori ag Asiantaeth yr Amgylchedd, gosododd Awdurdod yr Harbwr y system yng ngwanwyn 2001 a'i rhoi ar waith ym mis Mai 2001. Cost y system hon yw tua £3.5 miliwn, tua £2 miliwn yn llai nag amcangyfrif cost y Gorfforaeth ar gyfer opsiwn y 'Byrlymydd'. Mae'n bosibl y bydd yr arbediad hwn, a fyddai'n cronni i Lywodraeth y Cynulliad o dan y cytundeb Adran 165, yn llai os bydd angen buddsoddi cyfalaf ychwanegol mewn offer awyru, ocsigeneiddio neu offer arall.

3.30 Mae Awdurdod yr Harbwr ag Asiantaeth yr Amgylchedd yn cydweithio er mwyn sicrhau y cyrhaeddir y safon statudol am ocsigen toddedig ar sylfaen ddibaid. Mae swyddogion Awdurdod yr Harbwr yn deall y gallai'r broses barhau'n amhenodol gan ni ellir bod yn sicr y bydd y gyfundrefn yn ymdrin â phob cyfuniad o amrywiad

amgylcheddol a allai effeithio ar lefel yr ocsigen. Trafodir rheolaeth Awdurdod yr Harbwr o'i gyfrifoldebau amgylcheddol yn fanylach ym mharagraffau 3.34 i 3.47.

### Llifddorau

3.31 Mae'r problemau technegol a etifeddodd Awdurdod yr Harbwr gan y Gorfforaeth o ran y synwyryddion sy'n rheoli gweithrediad awtomatig llifddorau'r Morglawdd yn agos at eu datrys. Fodd bynnag, nid yw Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru mewn sefyllfa i roi cymeradwyaeth derfynol i weithredu offer y Morglawdd. O 1 Ebrill 2000 bu'r Cyngor yn gweithredu'r llifddorau â llaw ar sail 24 awr er mwyn i'r Morglawdd weithredu mewn ffordd a oedd yn dderbyniol o ran y perygl o lifogydd. O ganlyniad rhoddodd yr Asiantaeth gymeradwyaeth amodol i Awdurdod yr Harbwr weithredu'r Morglawdd o'r dyddiad hwn.

3.32 Mae Awdurdod yr Harbwr wedi cwblhau'r gwelliannau i'r llifddorau awtomatig gan gynnwys newidiadau i fwyhau llifau ar gyfer mynediad pysgod a mae'n barod i ddechrau profion ffisegol y gweithrediad awtomatig. Mae hwn yn drydydd cyfnod y profi. Cytunwyd y bydd hyn yn dechrau ym Mis Mai 2002 pan ddisgwylir i lifau yr afon fod yn isel yn gyffredinol. Dywedodd Asiantaeth yr Amgylchedd wrth Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru ei bod yn croesawu'r gwelliannau a wnaed gan Awdurdod yr Harbwr i'r system awtomatig ar gyfer gweithredu'r Morglawdd. Fodd bynnag, byddai'n bosibl y byddai'n rhaid i'r gwaith o brofi'r llifddorau gael ei ymestyn am beth amser. Dywedodd yr Asiantaeth na allai gymeradwyo'r system awtomatig tan ar ôl diwedd cyfnod rhesymol o brofion hyder ac y gallai hyn bara am rhwng chwe mis a sawl blwyddyn.

3.33 Yn gyffredinol gwnaed cynnydd sylweddol gan Awdurdod yr Harbwr ers trosglwyddo'r cyfrifoldeb iddo dros gwblhau prosiect y Morglawdd ac, yn benodol, llwyddodd i sicrhau cronfa ddŵr croyw yng ngwanwyn 2001. Sut bynnag mae'n bosibl y bydd sawl blwyddyn cyn y rhoddir cymeradwyaeth derfynol i'r llifddorau a phrofir i'r system awyru gynnal y lefelau ocsigen toddedig. Mae Awdurdod yr Harbwr yn cydweithio ag Asiantaeth yr Amgylchedd tuag at gywiro materion heb eu penderfynu.

## Cyfrifoldebau amgylcheddol

3.34 Mae Deddf Morglawdd Bae Caerdydd 1993 yn cynnwys nifer o ddarpariaethau pwysig i sicrhau y caiff y Morglawdd a'r Bae mewndirol eu rheoli a'u gweithredu yn ddiogel. Mae'n ofynnol i Awdurdod yr Harbwr reoli'r Bae Mewndirol a'r Harbwr Allanol er mwyn sicrhau bod ansawdd y dŵr yn bodloni'r safonau statudol neu ei fod yn cyrraedd safon y gellid ei phennu'n rhesymol gan Asiantaeth yr Amgylchedd. Mae'n rhaid iddo gydymffurfio â chyfarwyddiadau rhesymol gan Asiantaeth yr Amgylchedd er mwyn:

- diogelu ansawdd y dŵr a physgod yn y Bae Mewndirol;
- atal neu liniaru llifogydd; a
- caniatáu llwybr i bysgod ymfudol.

Gan ystyried y risgiau uchel, nid yn unig i'r amgylchedd ond i'r buddsoddiad cyhoeddus sylweddol a wnaed yn yr ardal, mae Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru wedi mabwysiadu partneriaeth ragweithiol a rôl gynhaliol wrth weithio gydag Awdurdod yr Harbwr, tra'n sicrhau ar yr un pryd na roddir ei dyletswyddau rheoleiddiol yn y fantol.

### Ansawdd y dŵr

3.35 Mae nifer o agweddau y mae angen eu rheoli yn y Bae er mwyn diogelu ansawdd y dŵr. Yn eu plith mae ocsigen toddedig, gwaredu algae a heliedd.

#### *Ocsigen Toddedig*

3.36 O ran ansawdd y dŵr, disgrifiodd paragraffau 3.28 i 3.30 y system awyru y mae Awdurdod yr Harbwr wedi'i sefydlu i fodloni'r gofyniad statudol o ran lefelau ocsigen toddedig. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn pryderu'n benodol am ocsigen toddedig, gan y gallai canlyniad methiannau o'r fath gael effaith amgylcheddol andwyol.

3.37 Caiff ansawdd y dŵr a lefelau ocsigen toddedig eu monitro drwy gyfrwng data a drosglwyddir o fwyau sydd wedi'u lleoli ar hyd a lled y Bae. Yn ôl y data hwn bu digwyddiadau o fethiannau ocsigen toddedig yn y Bae. Nododd Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru y gellid priodoli nifer o'r digwyddiadau hyn mewn gwirionedd i broblemau o ran yr offer casglu data, yn deillio o'r gwaith parhaus o'u cynnal a'u cadw. Serch hynny, ers i Awdurdod yr Harbwr dderbyn cyfrifoldeb dros y Bae bu dau ddigwyddiad mawr lle y syrthiodd lefel yr ocsigen toddedig ymhell islaw'r gofyniad statudol.

3.38 Roedd un digwyddiad ym mis Awst 2000 a'r llall ym mis Gorffennaf 2001. Yn ystod penllanw haf 2000, cafwyd cyfnodau estynedig o ansawdd dŵr gwael. Mae'n bwysig nodi i'r digwyddiad cyntaf hwn ddigwydd ymhell cyn cyflawni'r gronfa ddŵr croyw. Digwyddodd yr ail ddigwyddiad ym mis Gorffennaf 2001, ar yr un pryd â glaw trwm iawn, a arweiniodd at arllwysiadau i'r Bae Mewndirol. Yn ystod y digwyddiad hwn yn fwy lleol, syrthiodd lefel yr ocsigen toddedig ymhell islaw'r safon o bum miligram fesul litr ar gyfer cyfnod o wythnos, i lai na dau filigram fesul litr o ddŵr. Mae Awdurdod yr Harbwr yn cynnal trafodaethau gyda Dŵr Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd i ddeall ac ystyried sut i ymdrin â digwyddiadau o'r fath yn y dyfodol.

3.39 Mae gwaith monitro a chyflwyno adroddiadau parhaus ar lefelau'r ocsigen toddedig yn bwysig er mwyn i Asiantaeth yr Amgylchedd fod yn fodlon bod Awdurdod yr Harbwr yn cyflawni'r gofynion statudol. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdod yr Harbwr ystyried mesurau eraill wrth gefn, er enghraifft, yr angen i ddefnyddio unedau ocsigeneiddio symudol ar adegau pan fydd yn debygol y bydd methiannau ocsigen toddedig. Mae Awdurdod yr Harbwr yn ymchwilio i fesurau wrth gefn eraill ar y cyd ag Asiantaeth yr Amgylchedd.

***Problemau Algaidd***

3.40 Yn ogystal mae Awdurdod yr Harbwr bellach yn gyfrifol am agweddau eraill ar reoli ansawdd y dŵr. Mae'r cyfrifoldebau hyn yn cwmpasu amrywiaeth o faterion nas datryswyd gan y Gorfforaeth, gan gynnwys helïedd a phroblemau algaidd. Nododd fy adroddiad, Morglawdd Bae Caerdydd, yr angen am fesurau i gael gwared ar slafan algaidd o'r Bae a thrwy hynny atal algae a allai fod yn beryglus i iechyd rhag cronni. Fel arfer gwelir slafan algaidd yn y llyn dŵr croyw yn ystod y gwanwyn, yr haf a'r hydref er i ychydig bach ddigwydd ym mlwyddyn gyntaf cronni dŵr croyw. Trefnwyd contract i gael gwared ar 4,000 $m^3$ o algae o fewn cyfnod o 48 awr i safle tirlenwi. Daeth y contract hwn i ben ym mis Hydref 2001 ac mae Awdurdod yr Harbwr wedi adolygu'r trefniadau sydd mewn lle ynghyd â'r cychod ac offer angenrheidiol i gasglu a gwaredu slafan algaidd mewn safle gwaredu gwastraff cofrestredig. Yn erbyn y cefndir hwn mae Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru am gytuno'r dewision tymor hwy ag Awdurdod yr Harbwr.

***Helïedd***

3.41 Mae heli yn fygythiad i natur dŵr croyw'r Bae yn arbennig yn ardal llifddorau'r Morglawdd. Un o nodau'r contract carthu oedd adeiladu pwmp ar y llifddorau ar ochr y Bae er mwyn gallu casglu unrhyw ddŵr o'r môr a'i ddychwelyd i'r môr. Cadarnhaodd Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru fod Awdurdod yr Harbwr wedi cwblhau'r gwaith o adeiladu'r pwmp heli cyn cronni'r dŵr croyw. Fodd bynnag, aeth yr Asiantaeth ymlaen i ddweud nad oedd y pwmp yn gweithredu yn foddhaol o hyd. Mae Awdurdod yr Harbwr wedi ystyried ailgynllunio pwysig y pwmp a wedi darpar dewision i'r Gorfforaeth yr ystyrir iddynt ymdrin â materion helïedd yn y Bae. Mae cysylltiadau ynglŷn â'r mater hwn yn mynd ymlaen.

**Amddiffyn rhag llifogydd**

3.42 O dan Ddeddf Morglawdd Bae Caerdydd 1993 a Deddf yr Amgylchedd 1995, mae Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru yn gyfrifol am oruchwylio materion sy'n ymwneud ag amddiffyn rhag llifogydd ym Mae Caerdydd. Yn ei sylwadau i Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru, nododd yr Asiantaeth ddau fater. Roedd y materion hyn yn ymwneud â gweithredu'r llifddorau â llaw a chyfeintiau storio llifogydd byw.

3.43 O ran gweithredu llifddorau'r Morglawdd, methodd y system weithredu'n awtomatig o'r adeg y cronnwyd y Bae gyntaf ym mis Tachwedd 1999, o dan reolaeth y Gorfforaeth. Ers hynny, fe'u gweithredwyd â llaw. Gostyngwyd lefel y dŵr yn y Bae ar y dechrau i bedwar metr, er mwyn lleihau'r perygl o lifogydd, ac fe'i cynyddwyd i 4.5 metr ar ddiwedd 2000 pan oedd yr Asiantaeth yn fodlon â rheolaeth Awdurdod yr Harbwr o'r gweithrediad.

3.44 Mae agwedd arall ar amddiffyn rhag llifogydd yn ymwneud â chynhwysedd y Bae i gynnal lefel uwch na'r cyffredin o ddŵr. Gelwir hyn yn gyfaint storio llifogydd byw. Gostyngir y cyfaint hwn wrth i fwy o adeiladwaith gael eu codi o amgylch ardal y Bae. Gan hynny, mae Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru o'r farn y dylai Awdurdod yr Harbwr werthuso'r agwedd hon ar amddiffyn rhag llifogydd o leiaf bob dwy flynedd. Mewn ymateb, mae Awdurdod yr Harbwr wedi cytuno yn ogystal â'r cyfyngiadau cynllunio arferol, y dylid defnyddio ffotograffau o'r awyr i fonitro adeiladwaith a fydd yn effeithio ar gyfeintiau storio. Mae'r Cyngor Sir eisoes wedi cynnal arolwg o'r awyr i gydredeg â chanlyniadau'r

cyfrifiad. Gofynnwyd hefyd i wardeniaid Awdurdod yr Harbwr gadw brîff monitro mewn perthynas â'r mater hwn.

**Pysgodfeydd**

3.45 Un o ofynion eraill Deddf Morglawdd Bae Caerdydd 1993 yw y dylai Awdurdod yr Harbwr sicrhau llwybr didrafferth i bysgod. Ar adeg trosglwyddo'r awenau o Gorfforaeth Datblygu Bae Caerdydd i Awdurdod yr Harbwr roedd problemau'n bodoli eisoes gyda llwybr pysgod y Morglawdd. Nododd Asiantaeth yr Amgylchedd yn ei hadroddiad i Awdurdod yr Harbwr lwyddo i weithredu'r llwybr erbyn mis Mai 2000 mewn pryd i symudiad tymhorol pysgod ond y bu rhywfaint o broblemau technegol. Wrth i Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru lunio fersiwn derfynol yr adroddiad hwn, roedd Awdurdod yr Harbwr wedi cwblhau'r addasiadau angenrheidiol i un o'r llifddorau ac roedd yn rhagweld y byddai'r gwaith ar y ddau arall yn cael ei gwblhau erbyn gwanwyn 2002.

3.46 O dan is-gytundeb a oedd ynghlwm â Deddf Morglawdd Bae Caerdydd, trefnodd y Gorfforaeth Datblygu ac wedi hynny Awdurdod yr Harbwr i roi arian i Asiantaeth yr Amgylchedd i fonitro symudiad pysgod. Darparodd hefyd i Asiantaeth yr Amgylchedd leddfu effaith y Morglawdd dros dro ar ffurf stocio eogiaid ifanc. Bu'r gwaith monitro yn barhaus ers 1990 gan ddilyn cynllun y cytunwyd arno rhwng y Gorfforaeth Datblygu a rhagflaenydd yr Asiantaeth, yr Awdurdod Afonydd Cenedlaethol. Mae stocio pysgod hefyd yn strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer lleddfu effaith dybiedig neu fesuredig y Morglawdd. Ym mis Medi 2001, dechreuodd Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru ar y gwaith o gynllunio a chaffael system fideo ar gyfer cyfrif pysgod. Mae Deddf y Morglawdd yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdod yr Harbwr osod a chynnal a chadw offer i fonitro symudiad pysgod. Y dyddiad targed cyfredol i Awdurdod yr Harbwr gwblhau'r gwaith o osod offer cyfrif pysgod ac offer cysylltiedig yw haf 2002.

## Cynllun Diogelu rhag Difrod Dŵr Daear

3.47 Wrth ddirwyn y Gorfforaeth i ben, etifeddodd Awdurdod yr Harbwr gyfrifoldeb dros weinyddu'r Cynllun Diogelu rhag Difrod Dŵr Daear. Sefydlwyd y Cynllun o dan Ddeddf Morglawdd Bae Caerdydd 1993 ac mae'n "gwneud darpariaeth ar gyfer nodi ac atal neu atgyweirio difrod i eiddo yn deillio o unrhyw newid i lefelau dŵr daear a all ddigwydd o ganlyniad i adeiladu'r Morglawdd". Erys y Cynllun yn weithredol tan fis Tachwedd 2019, ugain mlynedd yn dilyn diwrnod cyntaf cronni dŵr. Bu'n rhaid i Lywodraeth y Cynulliad warantu costau'r rhwymedigaethau posibl yn deillio o ddifrod o'r fath i eiddo a gerddi. Wrth ddatblygu ei gyfrifoldeb yn y maes hwn, mae gan Awdurdod yr Harbwr sawl swyddogaeth i'w cyflawni:

- cynnal cynllun cynhwysfawr o arolygon eiddo ôl-gronni;
- monitro lefelau dŵr daear yn yr ardaloedd a gwmpesir gan y cynllun statudol; ac
- ymchwilio i hysbysiadau ynghylch achosion posibl o ddifrod dŵr daear.

3.48 Yn fras, mae'r Ddeddf yn darpar tri math o arolwg i sefydlu cyflwr eiddo mewn perthynas â lefelau dŵr daear. Cyflawnir y fath arolygon mewn ardal benodol warchodedig a hefyd gellir eu cyflawni, ar gais, mewn ardaloedd eraill yn Ne Caerdydd a thu hwnt. Dyma'r tri math o arolwg, sef arolygon cyn-cronni, ôl-gronni ac arolygon ychwanegol, er y cydnabyddir bod amgylchiadau gwahanol yn dibynnu p'un ai mae'r eiddo tu mewn i'r ardal warchodedig neu beidio. Cyn cronni ym mis Tachwedd 1999, trefnodd y Gorfforaeth Datblygu arolygon cyn-cronni o eiddo o fewn yr ardal a ddiogelwyd, hefyd, ar gais a thaliad o bedwar deg punt, eiddo tu allan i'r ardal warchodedig. Mae Deddf Morglawdd Bae Caerdydd yn ei gwneud yn ofynnol cynnal ail gyfres o arolygon rhwng dwy a thair blynedd ar ôl cronni. Cyfeirir atynt fel arolygon ôl-gronni. Yn ogystal, gall perchenogion a deiliaid a fu'n rhan o'r arolygon cyn ac ôl-gronni wneud cais am arolygon pellach hyd at 2019.

3.49 Ym mis Tachwedd 2001 dechreuodd Awdurdod yr Harbwr ar arolygon ôl-gronni o tua 25,000 eiddo. Bwriedir eu cwblhau ym mis Tachwedd 2002. Ar ôl eu cwblhau, bydd Awdurdod yr Harbwr yn darparu copi o adroddiad yr arolwg i'r perchennog/deiliad. Mae'r adroddiad hwn yn cymharu canlyniadau'r arolwg cyn ac ôl-gronni. Os mae'r eiddo wedi dioddef difrod dŵr daear wedyn bydd angen iddynt roi gwybod i Awdurdod yr Harbwr o fewn chwe mis o dderbyn adroddiad yr arolwg. Ymdrinir â dadleuon ynglŷn â "gofalon cyfiawnadwy" wedyn gan dirfesurydd annibynnol.

3.50 Mae Awdurdod yr Harbwr wedi penodi ymgynghorydd annibynnol i oruchwylio a dilysu'r adroddiadau monitro lefel dŵr daear drwy ddarparu barn ar gywirdeb a dibynadwyedd y data a gofnodwyd gan y monitriaid a leolir trwy gydol De Caerdydd. Cofnodir hefyd glawiad, lefelau aber,

Bae ac afonydd er mwyn sicrhau y caiff ffynonellau newidiadau o ran lefel dŵr daear eu nodi a'u priodoli yn briodol, fel mai dim ond am geisiadau y profir y gellir eu priodoli i'r gwaith o adeiladu'r Morglawdd y byddai Llywodraeth y Cynulliad yn talu amdanynt.

3.51 Hyd at Chwefror 2002, mae Awdurdod yr Harbwr wedi derbyn cyfanswm o 138 o hysbysiadau gan berchenogion a deiliaid o ran achosion posibl o ddifrod dŵr daear. Ymchwiliwyd i bob un ohonynt gan ddod i'r casgliad mai dim ond un ohonynt y gellid ei briodoli i ddifrod dŵr daear yn gysylltiedig â chronni dŵr ym Mae Caerdydd. Mae'r eiddo hwn yn cael ei fonitro ymhellach. Nid aethpwyd i unrhyw gostau hyd yn hyn yn sgîl hysbysiadau ac arolygon difrod dŵr daear.

3.52 Yn unol â Deddf 1993, mae Awdurdod yr Harbwr yn ariannu gwaith y Gweinyddydd Cwynion Dŵr Daear Annibynnol. Mae'n bwysig nodi y penodwyd y Gweinyddydd gan Lywodraeth y Cynulliad yn dilyn cystadleuaeth agored. Swyddogaeth y Gweinyddydd yw ystyried cwynion a wneir mewn perthynas â'r ffordd y gweinyddir y Cynllun Diogelu rhag Difrod Dŵr Daear gan Awdurdod yr Harbwr. O sefydlu'r swydd ym 1994, mae'r Gweinyddydd wedi ymdrin â chyfanswm o 51 o gwynion. Er taw tair cwyn a derbyniwyd yn ystod y deuddeg mis hyd at fis Mai 2001, cofnododd Gweinyddydd y Dŵr Daear bod nifer y cwynion nawr yn cynyddu o ganlyniad i'r rhaglen arolwg ôl gronni.

3.53 Yn erbyn y cefndir hwn nododd ymgynghorydd annibynnol Awdurdod yr Harbwr:

*"…y bu'r cyfnod o'r 4ydd Tachwedd 2000 hyd at 30ain Mehefin 2001 yn ddigonol i allu datgan yn hyderus nad yw'r cynnydd yn lefel y dŵr daear a llifogydd dŵr daear yn broblem o fewn cyd-destun y mesurau rheoli dŵr daear a weithredwyd."*

Er i'r ymgynghorydd annibynnol ddod i'r casgliad i'r risg o geisiadau mawr y byddai angen i Lywodraeth y Cynulliad eu hariannu ostwng dros y cyfnod o 18 mis ers cronni dŵr gyntaf yn y Bae, erys yn hanfodol i Awdurdod yr Harbwr barhau i fonitro a sicrhau data cyflawn a chywir ar lefelau dŵr daear.

## Sylw gan Awdurdod yr Harbwr

3.54 Wrth gwblhau'r adroddiad hwn cynigiodd Awdurdod yr Harbwr i Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru y barn fod marchnata a hyrwyddo Bar Caerdydd yn bwnc pwysig y bydd angen i'r Cynulliad a'r cyrff olynol perthnasol archwilio eleni a mewn blynyddoedd canlynol.

# RHAN 4 AWDURDOD DATBLYGU CYMRU

4.1 Wrth ddirwyn y Gorfforaeth Datblygu i ben, derbyniodd Awdurdod Datblygu Cymru amrywiaeth eang o gyfrifoldebau newydd. Fe'u nodwyd yn y cytundeb Adran 165 a drefnwyd rhwng yr Awdurdod a'r Gorfforaeth a cheir crynodeb ohonynt yn **Ffigur 4.1**. Er mwyn cynorthwyo â'r cyfrifoldebau newydd, trosglwyddwyd saith aelod o staff, yn cynnwys pedwar syrfëwr siartredig a thri aelod o staff cynnal, o'r Gorfforaeth i'r Awdurdod. Yn ogystal, derbyniodd yr Awdurdod hefyd rôl fwy cyffredinol, fel ym mhob man arall yng Nghymru, wrth gydweithio â Chyngor Sir Caerdydd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg ar adfywiad parhaus ardal Bae Caerdydd.

**Ffigur 4.1**

**Crynodeb o'r swyddogaethau a drosglwyddwyd i Awdurdod Datblygu Cymru**

- Gwaredu'r asedau datblygu sy'n weddill gan y Gorfforaeth Datblygu
- Olynu'r Gorfforaeth Datblygu fel y partner sector cyhoeddus yng nghynllun Menter Cyllid Preifat (PFI) Rhodfa Bute
- Rheolaeth amgylcheddol Parc Plymouth
- Talu a monitro grantiau datblygu gweddilliol y Gorfforaeth Datblygu
- Casglu amrywiol ddyledion sy'n parhau'n ddyledus a thalu amryw gredydwyr

*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru o'r cytundeb Adran 165*

## Perfformiad ariannol

4.2 Amcangyfrifodd y Gorfforaeth mai dros y cyfnod o bum mlynedd o 2000-01 i 2004-05 y byddai'r cyfrifoldebau a dderbyniwyd gan yr Awdurdod yn gofyn am arian net o tua £17 miliwn. Rhagwelodd y byddai'r Awdurdod yn codi incwm net o dua £5.3 miliwn yn ystod 2000-01. Seiliwyd hyn ar y dybiaeth y byddai'r Awdurdod yn cyflawni lefel benodedig o werthiannau mewn perthynas â'r asedau datblygu. Gwrthbwyswyd y treuliau yr oedd y Gorfforaeth yn disgwyl i'r Awdurdod eu hwynebu wrth gyflawni'r cyfrifoldebau eraill a dderbyniwyd ganddo yn erbyn y lefel ddisgwyliedig hon o incwm.

4.3 Dengys **Ffigur 4.2** ar ôl ystyried eitemau o incwm a gwariant yr amcangyfrifwyd y byddent yn digwydd yn 2000-01 ond a fydd erbyn hyn yn digwydd yn ddiweddarach, y rhagwelir y bydd yr Awdurdod yn codi £1.4 miliwn yn ychwanegol o incwm net o gymharu ag amcangyfrif y Gorfforaeth. Yn ystod y blynyddoedd 2001-02 i 2004-05, gwrthbwysir yr incwm ychwanegol hwn gan gostau uwch na'r hyn a ragwelwyd mewn perthynas â chyfrifoldebau eraill a dderbyniwyd. Fodd bynnag, dros y cyfnod llawn o bum mlynedd o 2000-01 i 2004-05 erys costau net y cyfrifoldebau a etifeddwyd gan yr Awdurdod yn £17 miliwn, sef yr un swm â'r swm a amcangyfrifwyd gan y Gorfforaeth. Erbyn diwedd y cyfnod hwn mae'r Awdurdod yn debygol o fod yn berchen ar nifer bach o asedau datblygu. Fe'u gwerthir ar adeg pan fydd eu prisiad yn y farchnad wedi cynyddu ac y gellir cyflawni mwy o incwm.

## Asedau datblygu

4.4 Ar 31 Mawrth 2000 ar ei dirwyn i ben, roedd y Gorfforaeth Datblygu yn berchen ar 21 o safleoedd yn ardal Bae Caerdydd yr oedd ganddynt botensial o ran datblygu masnachol neu breswyl. Trosglwyddwyd y safleoedd hyn i'r Awdurdod ynghyd â'r cyfrifoldeb dros eu gwaredu. Wrth lunio amcangyfrifon ar gyfer costau gweithredu cychwynnol cyrff olynol y Gorfforaeth, tybiodd swyddogion Llywodraeth y Cynulliad, ar gyngor y Gorfforaeth, y byddai gwerthu 15 o'r safleoedd hyn yn 2000-01 yn cynhyrchu £7.1 miliwn. Rhagwelodd y Gorfforaeth hefyd y byddai'r elw o werthu'r 21 o safleoedd yn cyrraedd tua £11 miliwn, er bod y pris a roddwyd ar y safleoedd gan syrfewyr annibynnol yr Awdurdod yn ystod y broses dirwyn i ben yn agosach at £10 miliwn.

4.5 Yn 2000-01, gwerthodd yr Awdurdod saith o'r safleoedd gan godi tua £6.5 miliwn y derbyniwyd £1.7 miliwn ohono yn 2001-02. Er na chyrhaeddodd nifer y gwerthiannau'r lefel a dybiwyd yn flaenorol gan y Gorfforaeth, roedd y swm a godwyd dri y cant yn uwch na phrisiad y Gorfforaeth o'r asedau a werthwyd. Cred yr Awdurdod y caiff llawer o'r safleoedd sy'n weddill eu gwerthu erbyn diwedd 2002-03 gan godi incwm a fydd, o leiaf, yn gyfwerth â'r swm a gynhwyswyd yn wreiddiol yn rhagolygon ariannu'r Gorfforaeth ar gyfer y trefniadau olynol.

## Ffigur 4.2

### Dadansoddiad o'r arian amcangyfrifiedig a'r arian gwirioneddol ar gyfer 2000-01

| | Gwerthu Asedau Datblygu £ miliwn | Cynllun PFI Rhodfa Bute £ miliwn | Parc Plymouth £ miliwn | Grantiau Datblygu £ miliwn | Amrywiol dderbynebion a chostau £ miliwn | Cyfanswm ar gyfer yr Awdurdod £ miliwn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| *Amcangyfrif terfynol* | (8.1) | 2.2 | 0.5 | 1.3 | (1.2) | (5.3) |
| **Derbynebion-taliadau net gwirioneddol** | (5.8) | 2.4 | 0.2 | 0.3 | (2.7) | (5.6) |
| **Derbynebion a thaliadau net a ddygwyd ymlaen i flynyddoedd diweddarach[1&2]** | (2.4) | - | 0.6 | 0.7 | - | (1.1) |
| ***Cyfanswm y derbynebion a'r taliadau gwirioneddol a'r rhai a ddygwyd ymlaen[1]*** | *(8.2)* | *2.4* | *0.8* | *1.0* | *(2.7)* | *(6.7)* |
| ***Perfformiad ariannol gwirioneddol o gymharu â'r amcangyfrif terfynol*** | **0.1** | **(0.2)** | **(0.3)** | **0.3** | **1.5** | **1.4** |

**NODIADAU**

1 Ni wireddwyd nifer o'r derbynebion a'r taliadau unigol yr amcangyfrifwyd y byddent yn digwydd yn 2000-01. Daw'r taliadau hyn i law a derbynnir y derbynebion hyn mewn blynyddoedd yn y dyfodol. Felly, er mwyn sicrhau y caiff perfformiad ariannol ei fesur ar sail tebyg at ei debyg, cynhwysir y symiau hyn a ddygir ymlaen yn y dadansoddiad hwn.

2 Yn yr un modd â Nodyn 1, gwerthodd yr Awdurdod eiddo yn 2000-01 y rhagwelwyd y byddent yn cael eu gwerthu mewn blynyddoedd diweddarach. Addaswyd y ffigurau a ddygwyd ymlaen i adlewyrchu hyn ac i sicrhau y caiff y perfformiad ariannol ar gyfer 2000-01 ei fesur ar sail gyson.

3 Mae'r ffigurau mewn cromfachau yn dangos troswariant yn erbyn yr amcangyfrif terfynol a luniwyd gan y Gorfforaeth.

*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru o wybodaeth a ddarparwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.*

4.6 Yn ogystal â gwaredu'r asedau datblygu hyn, derbyniodd yr Awdurdod hefyd gyfrifoldeb dros gasglu incwm sy'n ddyledus naill ai o dan gontractau yn cwmpasu gwerthiannau blaenorol gan y Gorfforaeth o asedau datblygu neu o dan gytundebau datblygu eraill a drefnwyd gan y Gorfforaeth. Cyfeirir yn aml at y darpariaethau perthnasol fel cymalau gorswm. Eglurir y ffordd y gweithia'r cymalau hyn yn fanylach yn **Ffigur 4.3.** Yn sylfaenol, maent yn caniatáu i'r sector cyhoeddus rannu yn elw partner y sector preifat.

4.7 Ar y cyfan, ar gyfer 2000-01 roedd y lefel o dderbynebion a sicrhawyd o'r trefniadau gorswm ymron i £0.4 miliwn, tua 60 y cant o'r swm a amcangyfrifwyd gan y Gorfforaeth. Cred yr Awdurdod y bydd yn cyflawni'r lefel o incwm a ragwelwyd mewn blynyddoedd diweddarach. Cadarnhaodd Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru fod gan yr Awdurdod y systemau angenrheidiol wedi'u hategu gan strwythur staff priodol i fonitro a chasglu'r holl incwm wrth iddo ddod yn ddyledus o dan y trefniadau hyn. Yn hyn o

## Ffigur 4.3

### Disgrifiad o'r ffordd y gall cymalau gorswm weithio yn ymarferol

Gwerthodd y Gorfforaeth sawl parsel o dir i amrywiol gwmnïau adeiladu a oedd yn arbenigo ym maes datblygu tai preswyl preifat i'w gwerthu. Roedd rhai o'r cytundebau hyn yn cynnwys cymal gorswm. Yn ei hanfod mae hyn yn caniatáu i'r datblygwr sector preifat ennill lefel o elw ar ôl costau penodedig penodol ac yn galluogi i'r sector preifat rannu mewn unrhyw elw y tu hwnt i'r lefel hon. Roedd lefel yr elw a ganiatawyd yn ystyried amodau'r farchnad ar adeg cwblhau'r gwerthiant a'r risg gysylltiedig a gymerwyd gan y datblygwr. Fodd bynnag, pe llwyddai'r datblygwr i gyflawni elw y tu hwnt i'r rheini a benodwyd yn y cytundeb, o ganlyniad er enghraifft i gynnydd uwch na'r disgwyl o ran prisiau tai, byddai'r cymal gorswm yn cael ei gymhwyso. O ganlyniad byddai'r elw dros ben yn cael ei rannu rhwng y Gorfforaeth a'r datblygwr, gan annog y datblygwr i sicrhau'r elw mwyaf posibl ond gyda'r sector cyhoeddus yn rhannu ei lwyddiant.

*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru*

beth, gwna'r Awdurdod ddefnydd effeithiol o arbenigedd y staff a drosglwyddodd o'r Gorfforaeth Datblygu.

4.8 Un o'r cytundebau datblygu mwyaf arwyddocaol a sefydlwyd gan y Gorfforaeth Datblygu oedd gydag Associated British Ports (ABP). Nodir crynodeb o fanylion y cytundeb hwn yn **Ffigur 4.4.** Awdurdod Datblygu Cymru sydd bellach yn gyfrifol am fonitro'r cytundeb hwn.

**Ffigur 4.4**

**Crynodeb o'r Cytundeb Datblygu rhwng Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd ac Associated British Ports (ABP)**

- Cymeradwywyd y Cytundeb gan y Swyddfa Gymreig ac fe'i llofnodwyd ym mis Mawrth 1991. Erys yn weithredol hyd nes mis Mehefin 2005. Sefydlodd fframwaith ar gyfer datblygu 174 erw o dir o fewn ardal benodedig y Gorfforaeth.
- Roedd prif delerau'r Cytundeb yn datgan fod y Gorfforaeth yn ymrwymo i beidio â gweithredu ei phwerau prynu gorfodol yn erbyn ABP ac yn gyfnewid am hyn roedd AMP yn ymrwymo i:
  - talu cyfran o'r cynnydd yng ngwerth y tir yn deillio o'r gwaith datblygu i'r Gorfforaeth;
  - talu i'r Gorfforaeth canran o unrhyw warged a ddeilliai ar ôl i ABP gyflawni elw cyfalaf cychwynnol ar yr hyn a ddiffiniwyd yn y cytundeb fel gwariant datblygu;
  - cyflwyno datblygiadau yn unol â fframwaith cynllunio'r Gorfforaeth; a
  - cyflawni isafswm datblygiad o 400,000 o fetrau sgwâr cyn mis Mai 1995.

*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru o wybodaeth a ddarparwyd gan Awdurdod Datblygu Cymru ac Associated British Ports.*

4.9 Ym mis Mawrth 1997 o dan delerau'r cytundeb hwn, derbyniodd y Gorfforaeth daliad cychwynnol o £2 filiwn. Hyd yn hyn ni fu unrhyw daliadau eraill yn ddyledus. Un o'r ffactorau allweddol yn hyn o beth yw y terfynwyd y cytundeb ar adeg pan roedd prisiau tir ac eiddo yn cynyddu'n gyflym. O ganlyniad gostyngodd prisiau eiddo yng Nghaerdydd yn sylweddol. Roedd prisiad y tir a gwmpaswyd gan y cytundeb yn adlewyrchu prisiau eiddo uchel ar ddiwedd yr 1980au ac er i brisiau wella ers hynny, nid yw gwerth sylfaen y tir a gwmpesir gan y cytundeb wedi cyrraedd y prisiadau a gynhwyswyd yn y cytundeb. Erys y cytundeb yn weithredol hyd nes mis Mehefin 2005. Yn unol â'r trefniadau y darparwyd ar eu cyfer yn y cytundeb mae'r Awdurdod yn monitro prosiectau datblygu a gwariant cyfalaf parhaus drwy gyfarfodydd pwyllgor cyswllt datblygu chwarterol gydag Associated British Ports. Er mwyn i unrhyw daliadau yn y dyfodol gael eu pennu'n gywir, rhydd y cytundeb fynediad i'r Awdurdod i lyfrau a chofnodion perthnasol Associated British Ports.

## Cynllun Menter Cyllid Preifat Rhodfa Bute

4.10 Dechreuwyd ar gynllun Rhodfa Bute yn gynnar yn ystod oes y Gorfforaeth er mwyn bodloni un o'r nodau isadeiledd allweddol a osodwyd ar ei chyfer gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar y pryd, sef ailuno canol dinas Caerdydd â'r lan dŵr. Yn unol â hyn, datblygodd y Gorfforaeth Datblygu gynllun i wneud y lan dŵr yn fwy hygyrch i gerddwyr. Rhagwelodd y cynllun gwreiddiol hwn y byddai llinell rheilffordd cangen Bute a oedd yn rhedeg ar hyd arglawdd trwm yn gyfochrog â'r Rhodfa Bute arfaethedig yn cael ei gwaredu gan sefydlu system Trafnidiaeth Cyflym Ysgafn (LRT) yn ei lle. Yn 1995 cyflwynodd y Gorfforaeth Datblygu gais cynllunio ar gyfer y cynllun hwn gan dderbyn cymeradwyaeth ar ei gyfer.

4.11 Roedd yn ofynnol gan y Swyddfa Gymreig i'r Gorfforaeth ddefnyddio'r Fenter Cyllid Preifat (PFI) i ariannu gwaith adeiladu'r cynllun ac roedd y cynllun PFI gwreiddiol yn cynnwys cam cyntaf y system LRT yn cysylltu Bae Caerdydd, Gorsaf Canol Caerdydd a gorsaf Stryd y Frenhines. Fodd bynnag, ni chymeradwyodd y Swyddfa Gymreig y cam cyntaf hwn oherwydd cost uchel cynnwys y system LRT. Felly, newidiwyd y cynllun. Roedd y cynllun diwygiedig yn cynnwys pob agwedd ar y cynllun gwreiddiol ac eithrio cael gwared ar arglawdd y rheilffordd a'i ddisodli gyda system LRT. O'r herwydd, bu'n rhaid i'r Gorfforaeth Datblygu wneud ail gais am gymeradwyaeth cynllunio. Roedd y gymeradwyaeth ddilynol yn ddarostyngedig i gytundeb o dan adran 136 Deddf Cynllunio a Thir Llywodraeth Leol 1980. Rhydd hyn rwymedigaethau penodol ar y corff sector cyhoeddus sy'n gwneud cais am y gymeradwyaeth. Ystyrir goblygiadau posibl hyn ym mharagraffau 4.18 i 4.20.

4.12 Fel y dengys **Ffigur 4.5**, yn dilyn y newidiadau hyn, mae cynllun PFI Rhodfa Bute bellach yn cynnwys tair prif elfen:

- adeiladu rhwydwaith ffyrdd;
- datblygiad swyddfeydd masnachol; a
- datblygiad preswyl.

**Ffigur 4.5**

**Elfennau allweddol cynllun PFI Rhodfa Bute**

**Y rhwydwaith ffyrdd**

Ceir dwy brif agwedd i'r elfen hon o'r cynllun. Yn gyntaf, byddai'n ofynnol i'r partner sector preifat adeiladu a chynnal a chadw rhwydwaith ffyrdd am 25 mlynedd a elwir yn Sgwâr Bute, i'r de i brif linell rheilffordd Llundain i Abertawe ar waelod Heol Eglwys Fair yng nghanol dinas Caerdydd. Yn ail, roedd gofyniad i adeiladu a chynnal a chadw ffordd ddeuol un cilomedr o hyd yn rhedeg o'r gogledd i'r de o Stryd Herbert i leoliad hamdden Glanfa Iwerydd ym Mae Caerdydd am 25 mlynedd. Ar ôl diwedd y cyfnod o 25 mlynedd daw'r ffyrdd yn gyfrifoldeb i Gyngor Dinas Caerdydd.

**Y datblygiad swyddfeydd masnachol**

Mae'n ofynnol i'r partneriaid sector preifat ddatblygu bloc o swyddfeydd masnachol o 120,000 troedfedd sgwâr o leiaf yn ardal newydd Sgwâr Bute. Mae'n ofynnol i'r gwaith hwn gael ei gwblhau o fewn 18 mis o ddyddiad cwblhau cytundebol y rhwydwaith ffyrdd. Bydd y datblygiad swyddfeydd hyn yn parhau'n eiddo i'r partner sector preifat ac o ganlyniad bydd hawl ganddynt i'r incwm a geir yn sgîl rhent. Mae rhwymedigaeth bellach i ddatblygu 337,000 troedfedd sgwâr ar draws nifer o safleoedd eraill yn yr ardal. Ceir rhwymedigaeth i adeiladu datblygiadau pellach pan osodir 80 y cant o'r adeilad nesaf o flaen llaw. Trosglwyddir y rwymedigaeth hon o adeilad i adeilad.

**Y datblygiad preswyl**

Mae hefyd yn ofynnol i'r partner sector preifat ddatblygu tai ar ochr ddwyreiniol y ffordd ddeuol newydd. Bydd rhwymedigaeth ar y datblygwr i gwblhau 40 o dai o fewn chwe mis o ddyddiad cwblhau cytundebol y ffordd a 265 uned arall o fewn pum mlynedd i'r dyddiad cytundebol ar gyfer cwblhau'r ffordd.

*Ffynhonnell: Awdurdod Datblygu Cymru*

4.13 Er mwyn hwyluso'r gwaith o adeiladu'r prosiect, ymgymerodd y Gorfforaeth â chynllun gorchymyn prynu gorfodol. Llwyddwyd i gaffael tua 300 o barseli o dir ac adeiladau ac mae eu perchenogaeth wrthi'n cael ei throsglwyddo i'r partner sector preifat. Cwmpesir cyfanswm o tua 20 erw o dir. Ar adeg dirwyn y Gorfforaeth Datblygu i ben roedd tua 80 y cant o'r cynllun gorchymyn prynu gorfodol wedi'i gwblhau. Mae'r Awdurdod bellach yn gyfrifol am weinyddu'r 20 y cant sy'n weddill.

## Y prif bartïon cysylltiedig

4.14 Mae'n rhaid i unrhyw gytundeb PFI gynnwys partner sector cyhoeddus a phartner sector preifat. Ym mis Ebrill 2000, trosglwyddodd rôl y partner sector cyhoeddus o'r Gorfforaeth i'r Awdurdod. Yn ogystal â'i rôl wrth gwblhau'r cynllun gorchymyn prynu gorfodol, mae'r Awdurdod hefyd yn gyfrifol am wneud y taliadau sy'n ddyledus i'r partner sector preifat o dan y ddêl PFI yn gyfnewid am ddatblygu'r cynllun. Cyfeirir at y rhain fel taliadau unedol oherwydd, ac eithrio unrhyw addasiad i adlewyrchu chwyddiant, erys maint y taliadau, a wneir yn fisol, yn gyson drwy oes y cynllun 25 mlynedd. Cwmni o'r enw City Link (Cardiff) Limited yw'r partner sector preifat yng nghynllun Rhodfa Bute, a sefydlwyd yn benodol ar gyfer y cynllun gan Norwest Holst a MEPC sydd ar y cyd yn berchen ar y cwmni hwn mewn cyfrannau cyfartal. Ceir rhestr o'r holl bartïon sy'n gysylltiedig â'r cynllun yn **Ffigur 4.6.**

## Cost y cynllun

4.15 Dros y cyfnod o 25 mlynedd a gwmpesir gan y cytundeb PFI, gwneir cyfanswm taliadau o £128 miliwn. Mae'r ffigur hwn wedi'i gysylltu â'r mynegrif prisiau adwerthol ac felly bydd y taliadau gwirioneddol yn uwch. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi yswirio cost gyfan y cynllun. Ar hyn o bryd y rhwymedigaethau hysbys yw'r taliadau sy'n ddyledus i City Link o dan y ddêl ar gyfer cyflawni eu rhwymedigaethau datblygu. Yn gyffredinol roedd y costau gwirioneddol a ddaeth i law yn 2000-01 yn unol â'r amcangyfrifon ariannu. Fodd bynnag, ceir tri ffactor a allai effeithio ar gost derfynol y cynllun. Mae'r rhain yn ymwneud â chost derfynol y gorchmynion prynu gorfodol; canlyniadau posibl y Cytundeb Adran 136 rhwng y Gorfforaeth Datblygu a Chyngor Sir Caerdydd; a gweithredu'r cymalau gorswm a gynhwysir yn y cytundeb PFI.

4.16 Ad-delir cost y gorchmynion prynu gorfodol ar gyfer caffael y tir sydd ei angen ar gyfer y cynllun gan City Link hyd at derfyn cychwynnol o £9.9 miliwn. Mae'r cytundeb PFI yn caniatáu hefyd y bydd City Link yn ad-dalu'r Awdurdod am gostau o hyd at 25 y cant yn uwch na'r £9.9 miliwn hwn yn gyfnewid am gynnydd yn y taliad unedol, gan greu terfyn eilaidd o £12.375 miliwn. Wrth i Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru lunio fersiwn terfynol yr adroddiad hwn, amcangyfrifodd yr Awdurdod mai £11.25 miliwn fyddai'r alldro tebygol ar gyfer cost y gorchmynion prynu

## Ffigur 4.6

**Partïon allweddol sydd bellach yn gysylltiedig â chynllun PFI Rhodfa Bute**

| Sefydliad | Rolau allweddol |
|---|---|
| Awdurdod Datblygu Cymru | Y partner sector cyhoeddus sy'n gyfrifol am:<br>◗ Cwblhau'r cynllun gorchymyn prynu gorfodol<br>◗ Talu taliadau unedol i'r partner sector preifat<br>◗ Rôl fonitro gyffredinol y cynllun |
| City Link (Cardiff) Limited | Y cyfrwng pwrpasol arbennig y mae Norwest Holst ac MEPC yn berchen arno a fydd yn ymgymryd â rhwymedigaethau'r partner sector preifat:<br>◗ Cwblhau'r cynllun ffyrdd<br>◗ Datblygu'r cynllun swyddfeydd masnachol<br>◗ Cwblhau'r datblygiad preswyl |
| Norwest Holst Construction | Y cwmni hwn yw'r prif gontractiwr a fydd yn cyflawni rhwymedigaethau City Link i adeiladu'r rhwydwaith ffyrdd. |
| MEPC | Dyma'r datblygwr a fydd yn cyflawni rhwymedigaethau City Link mewn perthynas â'r datblygiad masnachol. |
| Cwmnïau Adeiladu Beazer a Wimpy | Mae'r cwmnïau hyn wedi ymrwymo i drefniant preifat i gyflawni rhwymedigaethau City Link mewn perthynas â'r datblygiad preswyl. |

*Ffynhonnell: Awdurdod Datblygu Cymru*

gorfodol. Ar y cyd â swyddogion Llywodraeth y Cynulliad, penderfynodd yr Awdurdod ariannu unrhyw gostau ychwanegol yn uwch na £9.9 miliwn yn uniongyrchol yn hytrach na chynyddu'r taliad unedol. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cytuno i dalu'r gost ychwanegol hon. Nid yw cost derfynol caffael tir o dan y cynllun gorchymyn prynu gorfodol yn hysbys eto gan na chwblhawyd y negodiadau perthnasol.

4.17 Nododd paragraff 4.11 fod amodau penodol ynghlwm wrth y caniatâd cynllunio ar gyfer y cynllun o dan y cytundeb Adran 136 rhwng Cyngor Sir Caerdydd a'r Gorfforaeth. Gosododd y cytundeb hwn nifer o rwymedigaethau ar y Gorfforaeth, yr oedd y mwyaf sylweddol ohonynt yn ymwneud â gwaredu posibl arglawdd trwm y rheilffordd, cynnig a gynhwyswyd yn y cynllun gwreiddiol a dderbyniodd gymeradwyaeth cynllunio yn wreiddiol. Ar ôl dirwyn y Gorfforaeth i ben trosglwyddwyd y rhwymedigaethau hyn i'r Awdurdod ac o dan delerau ei gytundeb Adran 165 gyda'r Gorfforaeth Datblygu, yswirir yr holl rwymedigaethau yn deillio o'r cynllun Rhodfa Bute gan Lywodraeth y Cynulliad. Roedd y cytundeb Adran 136 yn gosod un o ddwy rwymedigaeth ar y Gorfforaeth, naill ai:

- cael gwared ar yr arglawdd rheilffordd trwm sy'n rhedeg yn gyfochrog â Stryd Bute; neu

- cael gwared ar y cyfyngiadau cyfredol a'r cyfyngiadau a ragwelir a grëir gan gulder pont rheilffordd Stryd Herbert - yn ymarferol byddai hyn yn golygu ehangu'r bont ei hun.

Mae angen i naill na'r llall o'r rhwymedigaethau ddechrau erbyn 31 Rhagfyr 2002 a'i gwblhau erbyn 31 Rhagfyr 2003 neu ar ddyddiad diweddarach fel y cytunir arno â Chyngor Sir Caerdydd. Fodd bynnag, os na wneir y gwaith yn unol â'r cytundeb, ceidw'r Cyngor Sir yr hawl i ymgymryd â'r gwaith angenrheidiol ei hun gan godi tâl am y costau ar yr Awdurdod. Mae swyddogion Llywodraeth y Cynulliad wrthi ar hyn o bryd yn adolygu'r opsiynau ar gyfer ail gam cynllun Rhodfa Bute. Maent yn defnyddio ymgynghorwyr peirianneg sifil sy'n arbenigo ym maes trafnidiaeth rheilffyrdd i asesu'r opsiynau sydd ar gael. Ar adeg llunio fersiwn

terfynol yr adroddiad hwn roeddent yn aros am adroddiad yr ymgynghorwyr. Waeth beth fydd canlyniad gwaith yr ymgynghorwyr, mae Llywodraeth y Cynulliad yn ymrwymedig i gadw cyswllt rheilffordd â'r Bae.

4.18 Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd yna amgylchiadau a fydd yn golygu y bydd symiau o arian yn ad-daladwy gan y partner sector preifat, City Link. Y rheswm am hyn yw bod y cytundeb PFI yn cynnwys cymalau gorswm mewn perthynas â'r datblygiad preswyl a'r datblygiad masnachol. Mae'r cytundeb yn caniatáu i City Link gyflawni lefel ganrannol benodol o elw ar gyfer y ddau ddatblygiad. Os bydd lefel ganrannol yr elw yn uwch na'r lefel honno a ddynodir yn y cytundeb ar ôl didynnu'r gwariant a ganiateir, rhennir y swm dros ben rhwng y partner sector preifat a'r partner sector cyhoeddus. Cyfran y rhaniad rhwng y ddwy ochr yw 60 y cant i 40 y cant o blaid y sector cyhoeddus. Cred yr Awdurdod ei bod yn fwy tebygol y daw'r cymal gorswm yn weithredol mewn perthynas â'r datblygiad preswyl, o gofio natur fywiog y farchnad dai gyfredol yng Nghaerdydd. Gyda'r math hwn o gytundeb mae'n hanfodol y cynhelir y gweithdrefnau monitro cadarn sydd ar waith ar hyn o bryd gan yr Awdurdod drwy oes y cytundeb er mwyn sicrhau y cesglir y symiau sy'n ddyledus i'r sector cyhoeddus.

### Cynnydd y cynllun

4.19 Ar adeg archwiliad Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru, roedd cynnydd da yn cael ei wneud gyda chynllun PFI Rhodfa Bute. Fel y dengys **Ffigur 4.7**, erbyn diwedd 2001, roedd pob agwedd ar y cynllun wedi'u cwblhau yn gynt na'r amserlen.

## Rheolaeth amgylcheddol Parc Plymouth

4.20 Mae'r ardal a elwir bellach yn Parc Plymouth wedi'i lleoli yn agos at ddatblygiad Marina Penarth tuag at ben deheuol strwythur y Morglawdd. Cyn hynny doc segur oedd yr ardal a oedd yn eiddo i'r hen Gyngor Bwrdeistref Bro Morgannwg ac a ddefnyddiwyd fel safle tirlenwi.

4.21 Er mwyn gallu datblygu'r ardal amgylchynol, roedd y Gorfforaeth Datblygu wedi caffael y safle. Oherwydd ei ddefnydd blaenorol, nid oedd unrhyw botensial datblygu masnachol neu breswyl ar gyfer y safle. Yn ogystal, oherwydd dadelfennu ei gynnwys, roedd angen monitro'r safle yn amgylcheddol yn barhaus (ac mae angen gwneud hynny o hyd). Ar ôl dirwyn y Gorfforaeth i ben, nid oedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg am i'r safle gael ei ddychwelyd iddynt. Am nad oedd Llywodraeth y Cynulliad mewn sefyllfa i orfodi'r mater, trosglwyddwyd y cyfrifoldeb dros reoli'r safle i'r Awdurdod.

**Ffigur 4.7**

**Y sefyllfa bresennol mewn perthynas â chynllun PFI Rhodfa Bute**

| | Targed | Statws cyfredol |
|---|---|---|
| Datblygu'r ffyrdd | Cwblhau erbyn mis Mawrth 2001 | Cwblhawyd ym mis Rhagfyr 2000 gyda Rhodfa Bute yn cael ei hailenwi'n Rhodfa Lloyd George. |
| Datblygiad masnachol | Cam 1 adeiladu swyddfeydd o 120,000 troedfedd sgwâr o leiaf. I'w gwblhau o fewn 18 mis o ddyddiad cwblhau cytundebol y rhwydwaith ffyrdd. | Adeilad swyddfeydd cam 1 gwirioneddol i fod tua 180,000 troedfedd sgwâr gros. Mae'r gwaith adeiladu wedi'i gwblhau yn gynt na'r amserlen hyd yn hyn a llwyddwyd i osod cyfran sylweddol o'r adeilad ar brydles ymlaen llaw |
| Datblygiad preswyl | Adeiladu 40 o dai o fewn 6 mis, a 265 o unedau pellach o fewn pum mlynedd o ddyddiad cwblhau cytundebol y rhwydwaith ffyrdd. | Mae'r datblygiad preswyl yn cael ei gwblhau tua 50 y cant yn gynt na'r amserlen. |

*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru o ddata a ddarparwyd gan Awdurdod Datblygu Cymru*

## Ffigur 4.8

### Y materion gweithredol sydd ynghlwm wrth reoli Parc Plymouth

- Monitro a chynnal lefel ddiogel o'r methan a gynhyrchir gan wastraff sy'n dadelfennu. Tynnir y methan drwy gyfres o dyllau turio. Er mwyn sicrhau y cynhwysir y nwy o fewn ffin y safle cynigir y dylid drilio mwy o dyllau turio.
- Cael gwared ar drwytholch[1] o hylifau gweddilliol a ryddheir drwy'r gwastraff cyn iddo ymuno â'r system garthffosiaeth arferol. Ar hyn o bryd mae hynny'n golygu pwmpio'r hylifau i dancer i ganiatáu iddo gael ei drin oddi ar y safle. Mae'r Awdurdod wrthi ar hyn o bryd yn adolygu dulliau o fabwysiadu ffordd fwy cost-effeithiol o drin trwytholch drwy ymgymryd â'r driniaeth ar y safle. Bydd hyn yn galluogi i'r hylifau gael eu rhyddhau'n uniongyrchol i'r brif system garthffosiaeth ar ôl eu trin ar y safle.

**NODYN**

1 Diffiniad swyddogol y llywodraeth o drwytholch yw 'Canlyniad hylif yn tryddiferu drwy safle tirlenwi a thrwy hynny dynnu sylweddau o'r gwastraff a adawyd'.

*Ffynhonnell: Awdurdod Datblygu Cymru*

## Ffigur 4.9

### Crynodeb o'r sefyllfa bresennol mewn perthynas â grantiau datblygu

| | **Gwerth y grantiau - £000oedd** |
|---|---|
| Grantiau datblygu a drosglwyddyd ar ôl dirwyn y Gorfforaeth i ben | 1,728 |
| llai | |
| Grantiau lle y penderfynwyd nad oes angen unrhyw daliadau | (280) |
| Taliadau a wnaed neu fuddiannau a roddwyd yn lle grant yn 2000-01 | (350) |
| Taliadau a wnaed erbyn 31 Rhagfyr 2001 yn ystod blwyddyn ariannol 2001-02 | (690) |
| **Swm i'w dalu mewn blynyddoedd diweddarach** | **408** |

*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru o ddata a ddarparwyd gan Awdurdod Datblygu Cymru/ Swyddogion Llywodraeth y Cynulliad.*

4.22 Fel y dengys **Ffigur 4.8**, mae rheoli safle Parc Plymouth yn cynnwys dau fater gweithredol allweddol. Gan nad oes gan yr Awdurdod unrhyw brofiad uniongyrchol o'r math hwn o waith, penododd gwmni sy'n arbenigo ym maes rheoli safleoedd tirlenwi i ymgymryd â rheolaeth weithredol y safle.

4.23 Yn ei rhagolygon ariannu, amcangyfrifodd y Gorfforaeth mai tua £117,000 fyddai costau blynyddol rheoli'r safle ac mai tua £350,000 fyddai'r costau cyfalaf ar gyfer cwblhau'r gwaith o dirlunio'r safle. Yn 2000-01, roedd y costau rhedeg gwirioneddol yn agos at £163,000. Daw'r costau cyfalaf cysylltiedig i law yn ystod blwyddyn ariannol 2002-03. Mae'r rhain hefyd yn debygol o fod yn uwch na'r hyn a ragwelwyd, gan gyrraedd tua £420,000. Rhydd hyn ystyriaeth i'r gwaith ychwanegol a fydd yn caniatáu i drwytholch gael ei drin ar y safle. Gan edrych i'r dyfodol, mae'r Awdurdod yn amcangyfrif mai tua £150,000 fydd costau rhedeg parhaus y safle, heb gynnwys chwyddiant. O dan delerau'r cytundeb Adran 165 mae Llywodraeth y Cynulliad yn ymrwymedig i ariannu'r costau hyn yn barhaol. O gofio hyn, unwaith y bydd yr holl waith cyfalaf wedi'i gwblhau ac y gellir ymgymryd â'r gwaith o drin trwytholch ar y safle, mae'n bosibl y bydd Llywodraeth y Cynulliad am ystyried a yw'n briodol o hyd i'r Awdurdod barhau i fod yn gyfrifol am reoli safle Parc Plymouth.

## Grantiau datblygu

4.24 Yn ystod ei hoes, roedd gan Gorfforaeth Datblygu Bae Caerdydd bwerau i ddyfarnu grantiau datblygu i gynorthwyo ag adfywiad economaidd-gymdeithasol yn ei hardal benodedig. Ar ôl ei dirwyn i ben, roedd y Gorfforaeth yn ymrwymedig i ddyfarnu nifer o grantiau datblygu ond roedd naill ai ond wedi talu rhan o'r grant neu heb wneud unrhyw daliadau i'r derbynwyr. O dan ei gytundeb Adran 165 gyda'r Gorfforaeth, mae'r Awdurdod bellach yn gyfrifol am weinyddu'r grantiau hyn.

4.25 Roedd gofyniad ariannu amcangyfrifiedig y Gorfforaeth ar gyfer 2000-01 yn seiliedig ar y dybiaeth y byddai saith grant am gyfanswm o £1.7 miliwn yn daladwy gan yr Awdurdod. Dengys **Ffigur 4.9** y daeth y taliadau neu'r buddiannau eraill a roddwyd yn lle grant i gyfanswm o £350,000 yn 2000-01 gyda chyfanswm o £212,000 o daliadau pellach yn cael eu gwneud cyn diwedd 2002. Telir y grantiau sy'n weddill naill ai yn ystod blwyddyn diweddarach neu mae'r Awdurdod wedi penderfynu na ddaw unrhyw symiau pellach yn daladwy.

4.26 Mae'r Awdurdod yn parhau i fonitro'r sefyllfa o ran yr holl daliadau grant sy'n ddyledus y mae angen eu gwneud. Fel yn achos talu'r holl rwymedigaethau eraill a etifeddwyd gan y Gorfforaeth, mae'r Awdurdod wedi rhoi rheolaethau priodol ar waith. Dim ond pan fydd y derbynnydd wedi cyrraedd lefel benodol o wariant y gwneir taliadau grant. Mae'r Awdurdod wedi cadw gwasanaethau cyfrifydd lleol i archwilio gwariant y derbynnydd gan sicrhau mai dim ond gwariant perthnasol a ganiateir gan amodau'r grant a fydd yn derbyn grant datblygu gan yr Awdurdod. Bu'r cyfrifydd a gadwyd yn ymwneud ag aseiniadau tebyg i'r Gorfforaeth yn y gorffennol ac, felly, mae ganddo brofiad yn y maes hwn.

4.27 Roedd gan fwyafrif y grantiau datblygu a dalwyd gan y Gorfforaeth amodau penodol ynghlwm wrthynt. Un o'r rhesymau allweddol am hyn oedd sicrhau bod y grantiau a ddyfarnwyd yn atgyfnerthu nodau adfywio'r Gorfforaeth. Roedd yr amodau ar amrywiol ffurfiau, er enghraifft, datblygu adeilad o faint penodol neu greu nifer penodol o swyddi. Roedd yr amodau hyn fel arfer yn gysylltiedig â'r grant ar gyfer cyfnod penodol yn dilyn ei dalu. Gelwir y cyfnod hwn yn gyfnod adfachu. Roedd monitro a oedd derbynnydd yn cydymffurfio â'r amodau a oedd ynghlwm wrth y grantiau a dalwyd gan y Gorfforaeth yn gyfrifoldeb pwysig arall mewn perthynas â'r grantiau datblygu a drosglwyddwyd i'r Awdurdod ar ôl dirwyn y Gorfforaeth i ben.

4.28 Mae'r Awdurdod wedi sefydlu trefniadau gyda chontractiwr allanol i ymgymryd â'r gwaith monitro hwn ar ei ran. Pan fydd derbynnydd wedi methu â chydymffurfio ag amodau'r grant, bydd yr Awdurdod yn adolygu'r achos a gall ddewis adfer cyfran o'r grant. Fodd bynnag, dim ond ar ôl cynnal asesiad o'r effeithiau tymor hir y gallai unrhyw adferiad o'r fath eu cael ar dderbynnydd y grant y gwneir y penderfyniad hwn. Rhagwelodd yr arian a amcangyfrifwyd gan y Gorfforaeth y byddai cyfran o ddau grant a dalwyd yn flaenorol gan y Gorfforaeth yn cael ei hadfachu. Roedd swm amcangyfrifiedig yr adfachiad hwn yn gyfwerth â thua £650,000 yn daladwy yn 2000-01. Mae'r Awdurdod yn parhau i fonitro'r ddau gynllun hwn a disgwylir y bydd y swm o'r grant a gaiff ei adfachu yn gyfwerth â thua £550,000 ond wedi'i daenu dros gyfnod amser hwy.

## Amrywiol ddyledwyr a chredydwyr

4.29 Wrth ddiddymu sefydliad o faint a chymhlethdod y Gorfforaeth bydd bob amser angen sefydliad arall, fel yr Awdurdod, i gwblhau amrywiol faterion cyfrifo. Yn unol â hynny, gadawodd y Gorfforaeth dros £1 miliwn mewn mân ddyledion i'w casglu gan yr Awdurdod. Drwy ei waith gyda'r Awdurdod, cadarnhaodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol i weithdrefnau a rheolaethau priodol gael eu gweithredu ar gyfer casglu'r dyledion hyn yn effeithiol. O ganlyniad, casglwyd yr holl ddyledion a dilëwyd swm bach (ychydig yn llai na £7,000).

4.30 Hefyd, trosglwyddwyd nifer o fân gredydwyr y Gorfforaeth i'r Awdurdod yr oedd angen eu talu. Cadarnhaodd Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru i'r Awdurdod sefydlu rheolaethau priodol i sicrhau mai dim ond ar ôl cael cadarnhad y derbyniwyd nwyddau a gwasanaethau cyn hynny gan y Gorfforaeth yn ystod ei hoes gweithredol y talwyd anfonebau.

# RHAN 5 CYNGOR CEFN GWLAD CYMRU

5.1 O dan y cytundeb Adran 165 a drefnwyd rhwng Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd a Chyngor Cefn Gwlad Cymru, derbyniodd Cyngor Cefn Gwlad Cymru gyfrifoldeb dros Warchodfa Natur Gwlyptiroedd Gwastadeddau Gwent. Disgrifiodd fy adroddiad, *Morglawdd Bae Caerdydd*, y gwaith o adeiladu'r warchodfa yng Ngwastadeddau Gwent a'i pherthnasedd i adfywiad parhaus Bae Caerdydd.

## Cefndir

5.2 Roedd Aber Taf/Elái yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ac yn elfen hanfodol o Ardal o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a Diogelwch Arbennig Safle ehangach Aber Hafren. Cyn adeiladu Morglawdd Bae Caerdydd a'r gronfa ddŵr croyw yn y Bae, darparodd gynefin unigryw ar gyfer adar ymfudol y dŵr ac adar eraill. Un o'r mesurau y bu'n rhaid i lywodraeth y Deyrnas Unedig ei gymryd i gydymffurfio â Chyfarwyddeb Adar Ewropeaidd a Chyfarwyddeb Cynefinoedd yr Undeb Ewropeaidd oedd darparu iawndal am golli'r amgylchedd hwn. Y prif gynllun iawndal oedd cynefin gwlyptir 410 hectar ar gyfer adar hirgoes ac adar hela, ardal ddwywaith maint y llyn dŵr croyw a grëwyd gan y Morglawdd.

5.3 Roedd yn rhaid cwblhau'r rhan fwyaf o'r gwaith i greu'r warchodfa gwlyptir cyn cronni'r dŵr croyw ym Mae Caerdydd. Fel y digwyddodd, sicrhaodd y Gorfforaeth Datblygu, gyda chymorth Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Is-adran Tir Awdurdod Datblygu Cymru a'r Swyddfa Gymreig/Llywodraeth y Cynulliad y cyflawnwyd yr amod hwn cyn cronni'r dŵr ym mis Tachwedd 1999. Rheolodd y Cyngor Cefn Gwlad y Warchodfa ar ran y Gorfforaeth o dan drefniant interim cyn derbyn cyfrifoldeb ffurfiol dros y Warchodfa ym mis Ebrill 2000.

5.4 O ganlyniad i'r gwaith o adeiladu'r Morglawdd a'r gronfa ddŵr croyw ym Mae Caerdydd, y ddwy rywogaeth bwysig o adar a gollwyd o Safle Aber Taf/Elái o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig oedd y Pibydd Coesgoch a Phibydd y Mawn â ddigwyddodd mewn niferoedd o bwysigrwydd cenedlaethol yn y gaeaf. Fel mesur digolledu, un o amcanion Gwarchodfa Natur Gwlyptiroedd Gwastadeddau Gwent yw cynnal nifer sylweddol o amrywiol gynefinoedd, wedi'u cynllunio gyda'r nod o gynnal niferoedd cenedlaethol bwysig o leiaf dwy rywogaeth adar gaeafol y dŵr, y Chwiwell a'r Hwyad Lydanbig. Yn ogystal, yn unol â'r ymrwymiad a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol ym mis Mehefin 1996, caiff y Warchodfa gyfan ei datblygu fel y bydd yn gymwys ar gyfer statws Ardal Diogelwch Arbennig o fewn pum mlynedd o'i chwblhau, yn yr un modd ag Aber Hafren.

5.5 Yn fy adroddiad, *Morglawdd Bae Caerdydd*, nodais fod cost derfynol adeiladu'r Warchodfa yn debygol o fod dros £10.4 miliwn, ffigur oedd ymron £5 miliwn yn uwch na'r ffigur a ddisgwyliwyd yn wreiddiol. Y ddarpariaeth gychwynnol ar gyfer y Warchodfa oedd £5.7 miliwn. Dyma oedd cost amcangyfrifiedig y warchodfa wreiddiol yng Ngwynllwg a wrthodwyd wedi hynny gan y Senedd, a fyddai wedi bod tua degfed maint Gwastadeddau Gwent. Trosglwyddwyd yr amcangyfrif fel cyllideb i ariannu cynllun gwahanol mewn lleoliad gwahanol. Y cynnig ar gyfer Gwarchodfa Natur Gwlyptiroedd Gwastadeddau Gwent oedd sefydlu tri chynefin gwahanol ac roedd yn tybio y byddai'r rhan fwyaf o'r glaswelltir gwlyb y byddai ei angen ar gyfer y Warchodfa yn cael ei ddefnyddio o hyd ar gyfer pori yn ystod y rhan fwyaf o'r flwyddyn. O ganlyniad byddai ffi yn cael ei thalu i dirfeddianwyr am gael defnyddio eu tir.

5.6 Ar ôl i'r cynllun gael ei gymeradwyo gan y Comisiwn Ewropeaidd nid oedd pob tirfeddiannwr perthnasol am ymrwymo i gytundeb gyda'r Gorfforaeth Datblygu. O ganlyniad, bu'n rhaid i'r Gorfforaeth ofyn i Awdurdod Tir Cymru gynorthwyo drwy bwrcasu gorfodol er mwyn sicrhau'r tir yr oedd ei angen arni ar gyfer y Warchodfa. Yn sgîl hyn cynhaliwyd ymchwiliad cyhoeddus llawn i greu'r Warchodfa. Felly nid allai'r Ysgrifennydd Gwladol roi cymeradwyaeth i'r cynllun i greu'r Warchodfa hyd nes mis Tachwedd 1997, ar ôl i Arolygydd Cynllunio'r Swyddfa Gymreig wneud ei argymhellion. Effaith dethol cynllun gwahanol mewn lleoliad gwahanol, yr ymchwiliad cynllunio a chaffael yr holl dir nas rhagwelwyd yn wreiddiol, oedd cynyddu cost amcangyfrifiedig y mesurau digolledu uchod uwchben y ffigwr o £10.4 miliwn. Saif yr amcangyfrif cyfredol ar £11.3 miliwn.

5.7 Nodais hefyd yn fy adroddiad, *Morglawdd Bae Caerdydd*, mai cost rhedeg amcangyfrifiedig y Warchodfa ar gyfer 2000-01 oedd £317,000. Yn ogystal, roedd Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn fodlon ar safon y Warchodfa. Roedd hefyd yn hyderus y byddai'r Warchodfa yn cyflawni'r targedau a osodwyd ar ei chyfer yn y pen draw. Mae'r paragraffau canlynol yn disgrifio'r cynnydd a wnaed gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru wrth gwblhau'r Warchodfa a'i rheoli ers mis Ebrill 2000.

## Cwblhau'r gwaith o adeiladu'r Warchodfa

5.8 Ar ôl dirwyn y Gorfforaeth Datblygu i ben ar 31 Mawrth 2000, derbyniodd y Cyngor Cefn Gwlad gyfrifoldeb dros sicrhau bod y contractiwr a ymgymerodd â'r gwaith o adeiladu'r Warchodfa wedi unioni unrhyw ddiffygion a nodwyd gyda'r gwaith gwreiddiol. Daeth y Cyngor Cefn Gwlad hefyd yn gyfrifol am setlo rhwymedigaethau cytundebol terfynol yn amodol ar gymeradwyaeth gan Lywodraeth y Cynulliad.

5.9 Bu'r cynnydd wrth unioni'r diffygion hyn yn arafach na'r hyn a gynlluniwyd oherwydd Clwy'r Traed a'r Genau yn ystod 2001. O ganlyniad i'r argyfwng, roedd symudiad o fewn ffiniau'r Warchodfa yn gyfyngedig iawn ac o ganlyniad cafwyd effaith andwyol ar ddilyniant y gwaith unioni hwn. Ar hyn o bryd mae'r Cyngor Cefn Gwlad yn rhagweld y cwblheir yr holl waith erbyn gwanwyn 2002.

5.10 Erbyn i'r Gorfforaeth Datblygu ddirwyn i ben ym mis Mawrth 2000, roedd wedi gwario £9 miliwn ar adeiladu'r Warchodfa. Amcangyfrifodd y Gorfforaeth mai £1.7 miliwn oedd y ddarpariaeth derfynol a fyddai'n ofynnol ar gyfer 2000-01. Roedd y ddarpariaeth hon yn cynnwys dyraniad i setlo ceisiadau terfynol a oedd yn ymwneud ag adeiladu'r Warchodfa. Yn ystod y flwyddyn honno gwariodd y Cyngor Cefn Gwlad £1.7 miliwn mewn perthynas â'r Warchodfa, yn unol ag amcangyfrif y Gorfforaeth.

5.11 Treuliwyd swm sylweddol o amser y rheolwyr yn ymdrin â setlo cyfrif terfynol y prif gontractiwr ar gyfer adeiladu'r Warchodfa. Ar sail cyngor ymgynghorwyr annibynnol a chyda chymeradwyaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru, cytunodd y Cyngor Cefn Gwlad ar gyfrif terfynol o £3.9 miliwn i'r contractiwr. O'r swm hwn roedd tua £3 miliwn eisoes wedi'i dalu gan y Gorfforaeth, felly dim ond y gweddill a oedd yn daladwy gan y Cyngor Cefn Gwlad.

5.12 Ar ôl cytuno ar fersiwn derfynol cyfrif terfynol y contractiwr ym mis Mawrth 2001, mae'r Cyngor Cefn Gwlad bellach yn amcangyfrif mai £11.3 miliwn fydd cost gyffredinol y Warchodfa. Erys rhywfaint o ansicrwydd o ran union lefel yr alldro ariannol. Y rheswm am hyn yw nad yw'r ceisiadau sy'n gysylltiedig â'r gorchymyn prynu gorfodol yn derfynol eto. Mae Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru yn deall y gallai gymryd sawl blwyddyn i'w setlo. Mae Is-adran Tir Awdurdod Datblygu Cymru yn ymdrin â'r mater hwn ar ran Cyngor Cefn Gwlad Cymru.

## Rheoli'r Warchodfa o ddydd i ddydd

5.13 Roedd alldro gwirioneddol cost rhedeg y Warchodfa yn ystod 2000-01 yn gyffredinol yn unol â'r amcangyfrif o £317,000. Amcangyfrifir mai'r gost o redeg y Warchodfa ar gyfer y cyfnod 2001-02 i 2004-05 yw £200,000 y flwyddyn.

5.14 Mae Grŵp Llywio'r Warchodfa yn darpar cyngor i'r Cyngor Cefn Gwlad ar ei waith yn y maes hwn. Mae'r Grŵp hwn yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Cyngor Cefn Gwlad, y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar a Chyngor Bwrdeistref Sirol Casnewydd. Mae'r Cyngor Cefn Gwlad hefyd yn cyflogi tri aelod o staff maes parhaol yn y Warchodfa ynghyd ag un aelod o staff cynnal amser llawn ac un aelod rhan amser. Caiff y staff maes hefyd gymorth gan 23 o wardeniaid gwirfoddol.

5.15 Mae cynllun rheoli pum mlynedd yn sail i waith y Cyngor Cefn Gwlad yn y Warchodfa â'r bwriad o helpu i sicrhau amcan terfynol y Warchodfa sef cael ei phenodi'n Ardal Diogelwch Arbennig. Noda **Ffigur 5.1** brif amcanion y Warchodfa a nodweddion allweddol ei threfniadau rheoli.

5.16 Er mwyn cyflawni statws Ardal Diogelwch Arbennig o fewn pum mlynedd, mae'n ofynnol i'r Warchodfa ddenu niferoedd sy'n bwysig yn genedlaethol o hwyaid llydanbig a chwiwellau sy'n goraeafu. Mae'r Warchodfa eisoes wedi rhagori ar y targed o 100 a osodwyd ar gyfer hwyaid llydanbig. O ran chwiwellau, y nifer uchaf a gyfrifwyd hyd yn hyn yw 473 o adar yn erbyn targed o 3,000. Mae'r Cyngor Cefn Gwlad yn hyderus y cyflawnir y nifer targed o chwiwellau dros weddill y cyfnod o bum mlynedd ac y bydd y Warchodfa yn llwyddo i gael ei phenodi fel Ardal Diogelwch Arbennig.

**Ffigur 5.1**

## Prif nodweddion ac amcanion Gwarchodfa Natur Gwlyptiroedd Gwastadeddau Gwent

- Denu ac wedi hynny cynnal poblogaethau sy'n bwysig yn genedlaethol o adar hela sy'n gaeafu, poblogaethau sy'n bwysig yng Nghymru o adar hela sy'n bridio, adar hirgoes a rhywogaethau gwely cors, a phoblogaethau sy'n bwysig yn rhanbarthol o olfanod sy'n bwyta hadau y mae eu niferoedd yn gostwng yn genedlaethol;
- Cynnal a gwella amrywiaeth planhigion ac anifeiliaid di-asgwrn-cefn dyfrol y corsydd a'r ffosydd;
- Creu ac wedi hynny cynnal mosaic o 153.5 hectar o gynefinoedd iseldir a glaswelltir gwlyb mewn cyflwr da er mwyn denu'r amrywiaeth nodweddiadol o adar dŵr sy'n gaeafu ac adar dôl sy'n bridio;
- Datblygu ac wedi hynny cynnal ardal 58 hectar o gors mewn cyflwr da; a
- Sicrhau y rheolir ardal y blaendraeth yn unol â Chynllun Rheoli Aber Hafren a bod y Warchodfa yn chwarae rhan lawn gydag Aber Hafren.

Mae prif benodiadau rheoli'r Cynllun, fel a ganlyn, yn sail i'r uchod:

- Pori yn yr haf, gan wartheg a defaid, a thorri'r glaswelltir i gynhyrchu glastir addas ar gyfer adar hela allweddol sy'n gaeafu ac adar hirgoes ac adar hela sy'n bridio;
- Rheoli'r gors wlyb drwy dorri a thyllu er mwyn atal dilyniant i gynefinoedd sychach a darparu'r cyfleoedd bwydo gorau posibl ar gyfer rhywogaethau allweddol o adar gwely cors;
- Rheoli prysgwydd sy'n gordyfu mewn cynefinoedd gwlyptir;
- Troi'r ffosydd cae mewn cylch er mwyn darparu mosaic o gamau o ddilyniant serol;
- Monitro lefelau'r dŵr, ansawdd y dŵr, strwythur y glastir, datblygiad y cynefinoedd a grëwyd ac anifeiliaid a blodau allweddol gan ddefnyddio dulliau safonol;
- Cynnal cydberthnasau da gyda'r gymuned leol, rhanddeiliaid yn y warchodfa a chyrff statudol; a
- Cynnal isadeiledd y Warchodfa.

*Ffynhonnell: Cyngor Cefn Gwlad Cymru*

5.17 Mae'r Grŵp Llywio wedi penodi'r Ymddiriedolaeth Gwlyptiroedd ac Adar Gwyllt i roi cyngor ar faterion fel mynediad i'r Warchodfa. Yn eu hadroddiad a baratowyd yn ystod Gwanwyn 2001, nododd yr Ymddiriedolaeth Gwlyptiroedd ac Adar Gwyllt ei fod 'yn ofalus wrth dybio y gallai Gwarchodfa Natur Gwlyptiroedd Gwastadeddau Gwent ddenu 40,000 - 50,000 o ymwelwyr bob blwyddyn pe datblygwyd y cyfleusterau i ymwelwyr'. Fodd bynnag, cydnabu'r adroddiad bod y nifer posibl hwn yn dibynnu i raddau helaeth ar lefelau hyrwyddo a'r gwaith o ddatblygu atyniadau yn y Warchodfa. Cydnabu'r adroddiad y byddai'n rhaid i unrhyw ddatblygiadau a chynnydd dilynol o ran nifer yr ymwelwyr gael eu rheoli'n agos ac yn sensitif er mwyn sicrhau na fyddent yn cael effaith andwyol ar nifer yr adar.

5.18 Argymhellodd yr adroddiad hefyd y dylid adeiladu cyfleusterau i ymwelwyr a chyfleusterau addysg ynghyd â mannau cuddio ac ardaloedd gwylio ymhob rhan o'r Warchodfa. Mae'n bwysig nodi nad oes gan Lywodraeth Cynulliad Cymru unrhyw ymrwymiad ariannol yn deillio o'r cytundeb Adran 165 i ariannu unrhyw ran o'r datblygiadau dilynol hyn yn y Warchodfa.

# RHAN 6 CYNGOR BWRDEISTREF SIROL BRO MORGANNWG

6.1 Gan fod rhan o'r ardal benodedig yr oedd Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd yn gyfrifol amdani o fewn ffiniau Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg, rhagwelwyd o'r cychwyn cyntaf y byddai rhywfaint o'r cyfrifoldebau yn trosglwyddo i Fro Morgannwg ar ôl dirwyn y Gorfforaeth Datblygu i ben. O dan delerau'r cytundeb Adran 165 a drefnwyd rhwng y Gorfforaeth a Bro Morgannwg, derbyniodd y Fro ddau faes o gyfrifoldeb, sef:

- parhau i gynnal a chadw llefydd agored ac amrywiol rannau o isadeiledd a adeiladwyd neu a ddatblygwyd gan y Gorfforaeth Datblygu ac a oedd o fewn ffiniau Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg; ac
- adeiladu llwybr Cyswllt Penarth o ymyl deheuol Morglawdd Bae Caerdydd yn natblygiad tai Marina Penarth o amgylch wyneb y clogwyn i'r esplanâd ym Mhenarth.

6.2 Er mwyn cynorthwyo â'r gwaith yr oedd angen i Fro Morgannwg ei gyflawni er mwyn arolygu a chynnal a chadw'r llefydd agored a'r rhannau o isadeiledd a etifeddodd gan y Gorfforaeth Datblygu, gwnaed cyfandaliad o ychydig dros £260,000 i'r Fro ym mis Mawrth 2000. Mae Bro Morgannwg bellach yn ymgymryd ag unrhyw waith sydd ei angen mewn perthynas â'r llefydd agored a'r rhannau o isadeiledd fel rhan o'r gweithgareddau tebyg a wneir ganddi ledled y fwrdeistref sirol. Caiff unrhyw gostau ychwanegol sy'n deillio o risgiau nas rhagwelwyd sy'n gysylltiedig ag asedau a rhwymedigaethau a etifeddwyd gan y Gorfforaeth, yn unol â thelerau cytundeb Adran 165, hefyd eu hariannu gan Lywodraeth y Cynulliad os dônt i ran y Cyngor mewn ffordd gywir, resymol ac angenrheidiol. Fodd bynnag, ni ddaeth unrhyw risgiau nas rhagwelwyd i'r amlwg hyd yn hyn.

6.3 O gymharu â hyn, mae'r gwaith o adeiladu llwybr Cyswllt Penarth yn brosiect llawer mwy arwyddocaol. Barn y Gorfforaeth Datblygu o'r cychwyn cyntaf oedd bod y gwaith o adeiladu'r llwybr yn rhan annatod o'r prosiect i adeiladu Morglawdd Bae Caerdydd a chreu llyn dŵr croyw ym Mae Caerdydd ac roedd llwybr Cyswllt Penarth yn atodlen arwahanol o fewn Deddf Morglawdd Bae Caerdydd 1993. Er mwyn ariannu'r gwaith o adeiladu'r llwybr mae Llywodraeth y Cynulliad wedi clustnodi swm o arian gyda therfyn o £7.5 miliwn yn daladwy dros y cyfnod o bum mlynedd o 2000-01 i 2004-05.

6.4 Mae Bro Morgannwg newydd sefydlu tîm aml-ddisgyblaeth i oruchwylio cam dylunio'r prosiect. Ac ers mis Ebrill 2000, bu'n ymgymryd â gwaith paratoi sylweddol i ddatblygu dyluniad addas sy'n ystyried y tir agored yn yr ardal a phryderon amgylcheddol cysylltiedig eraill. Wrth wneud hyn, cyflogwyd ymgynghorwyr allanol i archwilio rheolaeth llinell y llanw geo-dechnegol a materion amgylcheddol. Ar hyn o bryd, mae penseiri a pheirianwyr sifil a benodwyd gan Fro Morgannwg wrthi'n dylunio strwythur y llwybr Cyswllt.

6.5 Roedd cynlluniau rhagarweiniol ar gyfer y prosiect ar gael ar ddechrau 2002. Nawr bod y cynlluniau hyn ar gael, ac o ganlyniad i ddiddordeb sylweddol yn y prosiect, cynhaliodd Bro Morgannwg gyfres o ymarferion ymgynghori cyhoeddus ar lwybr Cyswllt Penarth. Mae'r Fro hefyd yn ceisio sicrhau yr hysbysir rhanddeiliaid eraill o'r cynnydd ar y prosiect. Wrth i Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru lunio fersiwn derfynol yr adroddiad hwn roedd Bro Morgannwg wrthi'n paratoi cynlluniau manwl ar gyfer y llwybr Cyswllt gyda'r nod o sicrhau cymeradwyaeth gynllunio erbyn canol 2002 a chwblhau'r gwaith o adeiladu'r llwybr Cyswllt erbyn diwedd 2004-05.

6.6 Ac eithrio cwblhau Morglawdd Bae Caerdydd a phrosiect PFI Rhodfa Bute, adeiladu llwybr Cyswllt Penarth oedd y prosiect adnewyddu mwyaf nas cwblhawyd gan y Gorfforaeth Datblygu. O ganlyniad i hynny, fe'i trosglwyddwyd fel rhan o'r trefniadau ar gyfer dirwyn gweithgareddau'r Gorfforaeth i ben ar 31 Mawrth 2000. Hwn hefyd oedd y prosiect mwyaf a gynlluniwyd ond na ddechreuwyd arno gan y Gorfforaeth Datblygu cyn ei dirwyn i ben. O ganlyniad, mae swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn cymryd diddordeb mawr yn ei gynnydd. Maent yn mynychu cyfarfodydd Gweithgor Cyswllt Penarth, a drefnir gan yr awdurdod lleol. Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd wedi derbyn barn archwilio cywir gan yr Archwilydd Dosbarth ar gymhwyso'r cronfeydd a ryddhawyd ganddi i Fro Morgannwg ar gyfer y prosiect yn 2000-01 yn gywir. Gofynnir am farn annibynnol debyg yn flynyddol dros oes y prosiect.